

CANU GWERIN

(FOLK SONG)

7/1984



CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU
THE WELSH FOLK-SONG SOCIETY

CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU
WELSH FOLK-SONG SOCIETY

Y SWYDDOGION A'R PWYLLGOR GWAITH, 1983-84
THE OFFICERS AND EXECUTIVE COMMITTEE, 1983-84

Llywydd/President: Mr. W. EMRYS CLEAVER

Is-Llywyddion/Vice-Presidents:

Dr. MOSTYN LEWIS, Mrs. K. IDWAL JONES, Dr. OSIAN ELLIS,
Y Fonesig/*Lady* AMY PARRY-WILLIAMS,
Y Fonesig/*Lady* ENID PARRY, Mr. E. BENNETT OWEN.

Cadeirydd/Chairman: Dr. HYWEL GRIFFITHS

Is-Gadeirydd/Vice-Chairman: Mr. ROBIN GWYNDAF

Pwyllgor Gwaith/Executive Committee:

Mrs. G. MEGAN TIBBOTT, Mr. ALUN DAVIES, Mr. WYN THOMAS
Miss MENNA THOMAS, Mr. JACOB MORGAN,
Mr. ARNOLD V. DAVIES, Miss MEINIR JONES,
Dr. MEREDYDD EVANS, Mr. EMRYS JONES,
Mr. RHIDIAN GRIFFITHS, Mr. ROBIN BOWEN,
Miss MARIAN REES, Mr. DAFYDD IDRIS

Trysorydd/Treasurer:

Mrs. FRANCES MÔN JONES,
Coed y Garth Lwyd, Llanfair Caereinion, Powys.
Ffôn: Llanfair Caereinion (0938) 810545

Ysgrifennydd Cyffredinol/General Secretary:

Mrs. BUDDUG LLOYD ROBERTS,
Hafan, Cricieth, Gwynedd. Ffôn: Cricieth (076 671) 2096

Ysgrifennydd Aelodaeth/Membership Secretary:

Mrs. ALWENA MORGAN,
Glan Mawddach, Y Ganllwyd, Dolgellau.
Ffôn: Y Ganllwyd (034 140) 635

Swyddog Cyhoeddusrwydd/Publicity Officer:

Mrs. SHÂN EMLYN EDWARDS,
Coed y Pry, 3 Llandennis Avenue, Caerdydd.
Ffôn: Caerdydd (0222) 751469

Golygydd y Cylchgrawn/Editor of the Journal:

Mr. D. ROY SAER,
Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd.
Ffôn: Caerdydd/Cardiff (0222) 569441

Archwiliwr/Auditor:

Mr. H.F.J. CADWALADER

CANU GWERIN

(FOLK SONG)

7/1984

CYLCHGRAWN CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU
JOURNAL OF THE WELSH FOLK-SONG SOCIETY

Golygyddol/ <i>Editorial</i>	3
Cyfranwyr/ <i>Contributors</i>	4
Canu Gwerin Llŷn ac Eifionydd MEREDYDD EVANS (<i>The Folk Songs of Llŷn and Eifionydd</i>)	5
Vocal and Instrumental Interaction in Earlier "Canu Penillion" PHYLLIS KINNEY	28
"Ystafell yr Hen Alawon" RHIDIAN GRIFFITHS (<i>"The Old Tunes' Room"</i>)	39
1. Lisa Lân	45
2. Ffarwél i Dre Caernarfon Lon	45
3. Adar Mân y Mynydd	46
4. Fenyw Fwyn (1)	46
5. Ble Bydda' I 'Mhen Can Mlynedd	47
6. Consét Gwŷr Aberffraw	48
7. Y Ddeilen Dybaco	49
8. Cân Ychen (1)	50
9. Difyrwrch Wiliam Owen Pencraig	51
10. Fenyw Fwyn (2)	52
11. Cân Ychen (2)	53
12. Fenyw Fwyn (3)	54
13. Mair Sydd yn Wyllo	55
14. Caneuon Calan	56
15. Mae Gafar Eto	57
Adolygiad (<i>Review</i>): <i>Ceinion y Gân</i> , gol./ed. E.G. Millward MEREDYDD EVANS	58
Marwolaethau (<i>Obituaries</i>): Mrs Kitty Idwal Jones Mrs Annie Lumley	65
Newyddion Cwta/ <i>News in Brief</i>	66

Y Cyfranwyr biau hawlfraint eu cyfraniadau. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn y Cylchgrawn o reidrwydd yn adlewyrchu barn y Golygydd na'r Gymdeithas.
Contributions are the copyright of their Contributors. Opinions expressed in the Journal do not necessarily reflect the viewpoints of the Editor or the Society.

Golygydd/*Editor*: D. ROY SAER —
Adran Llên Gwerin, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd
Department of Folklore, Welsh Folk Museum, St Fagans, Cardiff

Cysodi: Mei/Argraffu: Argraffdy Arfon
Cynllun clawr: D.I. Arwel Hughes

Lluŋ clawr (trwy garedigrwydd Amgueddfa Werin Cymru):

Y ddefod galennig yn Llangynwyd, Morgannwg, tuag 1908. Tynnwyd y llun gwreiddiol gan Frederic Evans.

Cover photograph (by courtesy of the Welsh Folk Museum):

The New Year calennig custom at Llangynwyd, Glamorgan, around 1908. Original photograph taken by Frederic Evans.

GOLYGYDDOL

O fewn i'r flwyddyn a aeth heibio collwyd dwy o gymwynaswyr blaenllaw'r Gymdeithas, Mrs Kitty Idwal Jones a Mrs Annie Lumley, a dioddefwyd afiechyd gan sawl un arall o'i swyddogion, gan gynnwys ein Llywydd. Ni all y sefyllfa lai na pheri cryn dristwch. Eto i gyd, ynghanol y gofid hwn, erys gobeithion cryf am ddyfodol llewyrchus i'r Gymdeithas. Ernes, efallai, o'r hyn sydd i ddod yw'r cynnydd presennol ar ei gweithgarwch ym maes cyhoeddi: yn ystod 1984 rhyddheir ganddi, yn ogystal â'r Cylchgrawn hwn, ddwy gyfrol arbennig (y rhoir manylion pellach amdanynt ar dud. 66 isod).

Fel y gwelir, pwyso'n helaeth a wna'r rhifyn presennol ar gynnrych y tîm ymchwil toreithiog hwnnw, Dr Meredydd Evans a Miss Phyllis Kinney. Edrychir ymlaen at weld cyhoeddi maes o law lawer yn rhagor o ffrwyth eu gwaith dyfal. Newyddian i dudalennau'r Cylchgrawn hwn yw'r awdur arall, Rhidian Griffiths, ac estynnir croeso arbennig iddo. Y mae'n aelod o staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru, sefydliad sydd bellach, fe sylwir, yn meddu ar amryw ymchwilwyr awdurdodol ym maes canu traddodiadol.

Cyflwynir, fel arfer, ein diolch i Gyngor Celfyddydau Cymru am gymorth ariannol ar gyfer cyhoeddi'r Cylchgrawn.

EDITORIAL

Within the past twelvemonth the Society has sadly lost two prominent benefactors, Mrs Kitty Idwal Jones and Mrs Annie Lumley, and several of its officials, including our President, have also suffered ill-health. Such a situation can only bring sadness. In the midst of our anxiety, however, we can yet retain firm hopes of a flourishing future for the Society. One omen, perhaps, of the prosperity to come is the present increase in its activity within the sphere of publication: during 1984 it is releasing, in addition to this Journal, two special volumes (of which further details are given on p. 67 below).

As can be seen, the present issue leans heavily on the work of that prolific research-team, Dr Meredydd Evans and Miss Phyllis Kinney. We look forward to the eventual publication of many more of the fruits of their indefatigable researches. Our other author, Rhidian Griffiths, is a newcomer to the pages of this Journal, so that we extend him a double welcome. He is a member of staff of the National Library of Wales, an institution which now possesses several authoritative researchers in the field of traditional music.

We thankfully acknowledge, as usual, the financial aid received from the Welsh Arts Council towards the publication of this Journal.

CYFRANWYR/CONTRIBUTORS

MEREDYDD EVANS, PHYLLIS KINNEY

Ym maes canu traddodiadol Cymreig bu Dr Meredydd Evans a'i wraig Miss Phyllis Kinney yn hynod weithgar ers blynyddoedd, gan weithredu yn eu tro fel datgeiniaid, beirniaid eisteddfodol, ymchwilyr, erthyglwyr, golygyddion a darlithwyr. Y mae ef yn Gyn-Gadeirydd i'r Gymdeithas a hithau'n gyn-aelod o'r Pwyllgor Gwaith. Golygwyd ganddynt ar y cyd y ddau gasgliad safonol *Caneuon Gwerin i Blant* (1981) a *Canu'r Cymry* (1984), a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas.

In the field of traditional music Dr Meredydd Evans and his wife Miss Phyllis Kinney have been extraordinarily active for several years, contributing in turn as singers, eisteddfod adjudicators, writers, editors and lecturers. He is a past Chairman of the Society and she a former member of its Executive Committee. Jointly, they have edited the two standard collections Caneuon Gwerin i Blant (Folk Songs for Children, 1981) and Canu'r Cymry (Songs of the Welsh, 1984), both of which are published by the Society.

RHIDIAN GRIFFITHS

Llyfrgellydd Cynorthwyol yn Adran y Llyfrau Printiedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Aelod o Bwyllgor Gwaith y Gymdeithas a hefyd bellach yn Drysorydd Cynorthwyol iddi. Mae ganddo ddiddordeb mewn cerddoriaeth yn gyffredinol, a chymer ran ei hunan fel canwr, organydd neu banydd, ac arweinydd parti madrigal.

An Assistant Librarian in the Department of Printed Books, National Library of Wales. A member of the Society's Executive Committee and now also its Assistant Treasurer. He is interested in music generally, and performs as a singer, organist or pianist, and as conductor of a madrigal group.

CANU GWERIN LLŶN AC EIFIONYDD*

(The Folk Songs of Llŷn and Eifionydd)

Meredydd Evans

Fy ngorchwyl pleserus yw cyflwyno ichi rai o'r caneuon gwerin a gasglwyd yn Llŷn ac Eifionydd. Dyma'r prif ffynonellau a ddefnyddiwyd:

Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru (yn cynnwys ei olynydd *Canu Gwerin*),
Caneuon Llafar Gwlad (Gol. D. Roy Saer, Amgueddfa Werin Cymru),
Caneuon Cefn Gwlad (Casglwyd gan Tal Griffiths. Llsgr. Amgueddfa Werin Cymru 2811),
Cymru (Gol. O.M. Edwards),
Caneuon Llofft Stabal (Gol. D. Roy Saer, Amgueddfa Werin Cymru. Record Sain 1164M).

O dynnu ar y ffynonellau hyn cynullwyd ynghyd 67 o ganeuon, gyda'r mwyafrif mawr ohonynt wedi eu casglu gan ddau berson: J. Lloyd Williams (32) a D. Roy Saer (18). O'r gweddill, casglwyd naw gan Tal Griffiths a phedair gan R.H. Evans; gedy hyn bedair yn ychwanegol gan unigolion. Dewisais nodi'r ffynonellau fel hyn er mwyn gwneud yn glir ar y cychwyn na fynwn hawlio bod fy netholiad yn un cyflawn. Diamau bod caneuon gwerin eraill ar gael yma ac acw; fy amcan pennaf oedd ceisio sicrhau croesdoriad gweddol gynrychioladol o ganeuon y rhan hon o'r wlad. Gobeithio imi lwyddo yn hynny o beth.

Y ffordd fwyaf hwylus i'w trafod, mae'n debyg, yw gosod math ar ddosbarthiad arnynt, a'r dosbarth mwyaf niferus o gryn dipyn yw eiddo'r caneuon serch. Hwn, felly, fydd ein man cychwyn.

1. *Caneuon Serch*

Mae tua deunaw o'r caneuon yn ymwneud â gwahanol weddau ar serch, ond gan nad oes amser i'w trafod i gyd rhaid bodloni ar gyfeirio'n fyr at rai ohonynt ac aros ychydig yn hwy hefo rhai eraill.

Go brin bod person yma heno nad yw'n gyfarwydd â rhyw ffurf ar "Lisa Lân" a "Tra Bo Dau" ond efallai na wyddoch am gysylltiad yr olaf o'r ddwy â hanes cynnar Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru. Mae'r stori sy

* Atgynhyrchiad a geir yma o sript darlith arbennig a draddodwyd yng Nghlwb y Bont, Pwllheli, fis Chwefror eleni. Fe'i cyhoeddwyd wedyn gan y Clwb a gellir sicrhau copïau printiedig ohoni am 60c yr un (gan gynnwys cludiant post) oddi wrth Mr Dennis Roberts, Garth Hudol, Rhodfa'r Môr, Nefyn, Pwllheli. Diolchir yn awr i'r awdur a'r Clwb am ganiatâd i'w hatgynhyrchu yn ein Cylchgrawn ninnau. Gol.

gennyf mewn golwg yn dechrau hefo J. Lloyd Williams pan oedd yn darlithio yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor, tua thro'r ganrif bresennol. Llafuriai mewn dau faes: llysieuog a cherddoriaeth, a rhan amlwg o'i gyfrifoldeb cerddorol oedd trefnu pa ganeuon oedd i'w canu gan y myfyrwyr ar achlysuron colegol pwysig. Am gyfnod bu'n trefnu rhai o'r alawon cenedlaethol, fel y'u gelwid, ar gyfer côr y coleg, alawon megis "Difyrrwch Wiliam Owen Pencraig", "Blodau Ffestiniog", "Morfa Rhuddlan" ac ati (alawon llai adnabyddus na "Rhyfelgyrch Gwŷr Harlech", "Codiad yr Ehedydd" a'u tebyg). Ond nid oedd yn llwyr fodlon ar y canlyniadau, a hynny am ddau reswm: anaml y byddai'r myfyrwyr yn eu canu nhw tu allan i'r neuadd gyngerdd a phan ddigwyddai hynny go brin y clywid neb yn eu canu hefo'r geiriau a drefnwyd ar eu cyfer.

Pa ganeuon eraill i'w trefnu, ynteu? Wrth ymhel â'r cwestiwn hwn cofiodd J. Lloyd Williams yn sydyn am gân a godwyd ganddo, dro byd cyn hynny, o ganu ei wraig a'i chwaer-yng-nghyfraith yng Nghricieth. "Tra Bo Dau" oedd honno a threfnodd hi ar gyfer ei gôr. Cafwyd llwyddiant yn y fan a'r lle, hefo'r myfyrwyr, wedi'r ymarferiadau, yn canu'r gân, yn alaw a geiriau, mewn ffreutur a choridor a llety; ambell dafarn hefyd, mae'n debyg! Arweiniodd hyn, ar fyr dro, i sefydlu "Cymdeithas y Canorion", yn cynnwys dau ar bymtheg o fyfyrwyr y coleg a dau o athrawon y Coleg Normal. Ymhen ychydig iawn o amser roedd y myfyrwyr hynny yn casglu caneuon gwerin — yn eu codi nhw ar lafar — o ganu gwŷr a gwagedd eu gwahanol ardaloedd ac yn darganfod rhai degau ohonynt. Cododd John Morris, er enghraifft, gryn ddeugain yng nghylch Ffestiniog, Trawsfynydd, Talsarnau a Phenrhyndeudraeth. Blaenffrwyth cynhaeaf bras.

Ond, a dychwelyd at ein caneuon, deawn at un a oedd yn boblogaidd yn ystod y ganrif ddiwethaf; un sydd, o ran ei phatrwm cyffredinol, yn defnyddio confensiwn llenyddol a aiff â ni'n ôl i'r Oesoedd Canol: y confensiwn o grwydro gwlad ben bore a tharo ar ddigwyddiad o ryw fath yn ymwneud â serch. Un o feirdd y ganrif ddiwethaf, serch hynny, sydd biau'r geiriau, sef "Gwilym Morganwg", ac er bod dyn yn cael ei demtio i awgrymu y gallai'r prydydd fod yn tynnu ar ddefnydd hŷn, o ran geiriau (yn debyg i fel y dadleuwyd fod "Iolo Morganwg" wedi ei wneud wrth lunio "Bugeilio'r Gwenith Gwyn") rhaid ymatal, dros dro, rhag mynd ar drywydd awgrym o'r fath. Yn hytrach, gwrandewch ar ryw bedwar pennill o'r gerdd, gan William Rowlands, brodor o'r Rhiw yn wreiddiol:

Fel yr oeddwn i'n rhodio'r caeau —
Ddydd Mawrth diwethaf, o ddyddia'r byd —
Mewn lle isel dan goedwig dawel
Fe glywn i ddwy'n ymgomio 'nghyd.

Nesu wnes i'n nes-nes atynt
Nes oeddwn i yn y lle a'r man,
A phwy oedd yno yn ymgomio
Ond f'annwyl gariad i gyda'i mam.

"Fy annwyl eneth, (ai) ti sydd yma
Gyda mi, a'th ddwylo'n rhydd,
Yn lân dy drwsiad, yn hardd d'osodiad.
A minnau am dy fatsio sydd.
Cei fowntio'th geffyl, fy nghanen gynnwl,
A gweision sifil iawn i'w trin,
A golud bydol, sef aur melynion
Ac arian gloywon wrth dy glun."

"Pe cawn i rannau gwledydd India,
Sidan Persia, aur Periw,
Gwell genny'r mab wyf yn ei garu
Ac 'rwyf am sefyll iddo'n driw."
"O! Ai fel yna'r wyt ti'n darparu?
Cei gweirio'th wely ar bigau'r drain!
Oni choeli'm geiriau, bydd chwerw'r chwarae
Os mentri gyda'r bachgen main!"

"Gyda'r bachgen main mi fentraf,
Mam, a dwedyd ichwi'r gwir;
Gadawa'-i'r moddion i'r cybyddion
A mentraf gyda blodau'r sir,
A'i wyneb purwyn a'i wallt melyn,
Ac ar ei rudd y mae dwy ros,
A gwyn ei byd y ferch a fyddo
Yn ei freichiau'n cysgu'r nos."

Confensiwn llenyddol arall a gynrychiolir yn y caneuon serch hyn yw hwnnw o anfon aderyn yn llatai at ferch, a cheir enghraifft ddiddorol o hynny yn yr un pennill hwn a godwyd gan J. Lloyd Williams o ganu Ann Jones, ei chwaer-yng-nghyfraith o Gricieth, hynny ar amrywiad o alaw sydd erbyn hyn yn fwy adnabyddus ac a gasglwyd gan John Morris ym Mlaenau Ffestiniog. Dyma'r pennill dan sylw, o'r gerdd a adwaenir fel "Adar Mân y Mynydd":

Yr adar mân a aethant,
I'w siwrnai bell hedsant;
Ac ar gyfer gwely Gwen
Hwy ar y pren ganasant.

Ac y mae confensiwn llenyddol eto i'w gael yn un o ganeuon Eifionydd, sef hwnnw o ganmol y pren celyn, uwchlaw pob pren arall yn y goedwig. Roedd i'r pren hwn, gyda llaw, arwyddoçad symbolaidd mewn cysylltiad â pherthynas y rhywiau â'i gilydd — arwyddoçad crefyddol hefyd — ond stori arall yw honno.

Bellach carwn fanylu rhyw ychydig ar dair cân yn cynrychioli, pob un yn ei thro, is-ddosbarthiadau o'r caneuon serch, gan gychwyn gyda dosbarth y caneuon hynny sy'n adrodd stori garu o ryw fath. Y gyntaf yw "Cariad y Garddwr" a chystal imi, ar unwaith, gyflwyno ichi ddau bennill ohoni:

O, cydnesewch, ieuenctid diddan,
Fe brofa' ar frys f'ewyllys allan,
Mynega'n fwynlan fel y bu
Am ledi landeg o dre Lundan
Rodd serch ar lanc o arddwr mwynlan,
O wlad y Cymry cywrain cu.
Merch i farchog enwog iawn
Ymhob rhyw gampau, dysg a dawn;
Roedd boneddigion gwlad a threfydd
Am fy ngharu yn bennaf beunydd,
Ar foreddydd a phrydnawn.
Er hyn mi scorniais hwy oll i gyd,
Gan wrthod rhinwedd bonedd byd
Er mwyn rhyw lencyn hardd o Gymro,
Mi gefais wylo yn hir amdano
Heb gael gobaith mendio 'mryd.

Ar ôl bod yn ei garu flwyddyn,
Aeth rhywun at fy nhad i achwyn,
Fe gafodd glywed hyn yn glir.
Pan glybu 'nhad, mewn llid a chyffro,
Danfonodd wŷr i'w brysur bresio
I fynd i dario 'mhell o dir.
Bûm innau flwyddyn gyfa' gron
Â dirfawr friw o dan fy mron;
O, yn fy ngwely yr o'n i'n wylo,
Gan gofio'n dyner o hyd amdano,
Yn ffaelu â rhodio'r ddaear hon.

O ganu Daniel Evans, Y Ffôr, y cododd J. Lloyd Williams y gân hon ac yn dameidiol y cafwyd hi, ond roedd digon yn weddill ar gof y canwr inni fedru amgyffred rhediad cyffredinol y stori gyffrous. Fe gawsoch ei chychwyn; dyma'i hanfodion:

Merch fonheddig yn Llundain yn mopio'i phen yn llwyr ar arddwr golygus o Gymro. Ond mae ei thad, sy'n farchog o fri, yn dod i glywed am y garwriaeth ac yn trefnu bod y Cymro bach yn cael ei bresio a'i yrru, felly, i'r môr. Wedi i hyn ddigwydd mae'r ferch yn clafychu am flwyddyn gron ond yna yn gwisgo fel llongwr, yn dianc o ofal ei thad ac yn hwylio tua Jamaica yn y gobaith, mae'n amlwg, o ddod o hyd i'w chariad. Wedi naw niwrnod o hwylio caiff y llong y mae'n morio arni ei chipio gan y Ffrancwyr ac eir â'r criw i garchar. Ymhen amser cânt eu rhyddhau a'u dychwelyd i "Dofar". Ar lanio yno mae'r ferch yn cyfarfod â'i Chymro dewr, y ddau'n priodi, y tad yn torri ei galon o glywed am y briodas, y ferch yn etifeddu ei holl dai a'i diroedd, a chariad pur yn fuddugoliaethus.

"Chaech chi ddim byd gwell yn un o straeon "Cyfres y Fodrwy". A phwy sydd, ynte, nad yw'n hoffi stori garu, yn enwedig un â thipyn o antur ynddi fel "Cariad y Garddwr"? Yn anffodus, fel yr awgrymais eisoes, ni wn am ffurf gyflawn ar y gerdd hon. Diamau iddi gael ei chyhoeddi ar daflen rywbryd ac iddi gael ei chanu'n ddramatig ddigon gan ryw hen gono neu'i gilydd yn ffeiriau'r rhan hon o'r wlad. Digon posib hefyd mai cyfaddasiad ydyw o stori ag iddi gylchrediad mewn sawl gwlad y tu allan i Gymru, ond pwy bynnag oedd y cyfansoddwr yn ein gwlad fach ni roedd ganddo grap ar y cynganeddion a pharch at rai o draddodiadau barddonol ei bobl. Tybed a yw'r hen faled hon i'w chael o hyd mewn rhyw gongl lychlyd o Lŷn neu Eifionydd? Ac enw'r prydvd ar ei diwedd hi? Mi rown lawer am gael fy mhump arni.

Perthyn ein hail gân serch i'r dosbarth hwnnw o ganeuon sy'n troi o gylch arferion caru; yn yr achos hwn yr arfer, digon rhynllyd ar brydiau bid siwr, o guro ar y ffenestr a disgwyl am fynediad i stafell gysgu'r forwyn. Mae'n hen arfer yn ddios ac yn ddigon dealladwy mewn cymdeithas wledig lle roedd oriau gwaith yn hynod o faith ac amser caru yn brin. Ac nid mater bach oedd cael lle cyfleus i gyfarfod â morwyn ffarm sut bynnag, oherwydd cyfyngid hi, druan fach, i'r tŷ lle llafuriai, ar wahân i ambell ymweliad cyhoeddus â'i chapel, ei heglwys, neu aelwyd ei theulu. Nid oedd fawr o obaith i greadur o was yntau am ganiatâd i'w gwahodd i lofft y stabal. Lle i'r dynion oedd hwnnw, gyda'r nos, a'r unig gip a gai'r forwyn ar y lle oedd pan elai yno i lanhau tipyn arno yn ystod y dydd. Ond yr oedd i'r lofft stabal un fantais go sylweddol: gallai'r gwas ddychwelyd yno o'i deithiau caru heb i neb fedru dweud y drefn wrtho. Cyn belled â'i fod yn ôl wrth ei waith, ac yn dal o gwmpas ei bethau yn weddol fywiog ac effeithiol, nid oedd ei gyflogwr yn debyg o boeni am ei grwydriadau. Synnwn i'r un mymryn nad gwas ffarm o rywle a luniodd yr hen bennill hwnnw:

Gwyn eu byd yr adar gwylltion,
Hwy gânt fyned fan a fynnon',
Weithiau i'r môr ac weithiau i'r mynydd
A dwad adra yn ddigerydd.

Na, nid oedd neb a allai rwystro gwas â dipyn o dân yn ei fol rhag crywdro'r nos; ac yr oedd, wedi'r cyfan, y fath beth yn bod â ffenestri y gellid eu hagog, hefo tipyn o gydweithrediad graslon. Nid yw ryfedd yn y byd bod yr hen arferiad hwn yn cael ei adlewyrchu yn y canu gwerin a bod difyrwrch "Cerdd yr Hogan Goch", er enghraifft, yn rhan o fywyd bechgyn y penrhyn hwn ddyddiau a fu. Eithr am gân arall yr wyf eisiau sôn yn benodol: "Y Gwydr Glas" ("glas" yn yr ystyr o "gwyrd" yn y cyswllt hwn, wrth gwrs: mae ambell i wydryn gwyrd trwchus i'w gael o hyd yma ac acw yng nghefn gwlad).

Ceir o leiaf dair ffurf ar y gân hon wedi eu recordio yn Llŷn a chaed rhai gwahanol wedyn yn Y Bermo, Abergwaun, Rhosllannerchrugog a Threffynnon. Yn wir, cyfeiria J. Lloyd Williams (*CCAGC*, I, 209) at "rai dwsinau" o ffurfiau arni. Ond yr amrywiaeth *alawon* sy'n syfrdanol, hefo rhai wedi eu patrymu ar "Yr Hen Ddarbi", "Clychau Rhiwabon" a "Y Ferch o'r Bedlam" ac eraill wedyn yn hollol wahanol i'r rhain. Gellir dweud cymaint â hyn am y tair alaw o Lŷn (o Fynytho, Sarn a Rhoshirwaun): bod ganddynt un frawddeg gerddorol yn gyffredin; eithr rhaid eu gadael ar hynyna o sylw a throi at un ohonynt yn unig, sef honno a godwyd gan Tal Griffiths o ganu Robert Griffith, Trefgraig Bach, Rhoshirwaun — ar y stryd ym Mhwlheli, sylwer. Dyna mor frwdfrydig oedd Tal Griffiths fel casglwr; coffa da amdano, a'i Gôr Glannau Erch gynt:

Os daw 'nghariad yma heno, yma heno,
I guro'r gwydyr glas,
Rhowch ateb gweddus iddo, gweddus iddo, —
Na atebwch mono'n gas —
Nad ydyw'r ferch ddim gartre,
Na'i h'wyllys da'n y tŷ,
Llanc ifanc o'r plwy arall, o'r plwy arall,
Sydd wedi mynd â hi.

Fy nghalon sydd cyn drymed, sydd cyn drymed.
Â'r march sy'n dringo'r rhiw;
Wrth geisio bod yn llawen, bod yn llawen,
Ni fedrwn yn fy myw —
Yr esgid yn fy ngwasgu
Mewn lle nas gwyddoch chwi,
A llawer gofid calon, gofid calon,
Sy'n torri 'nghalon i.

Pe meddwn edyn eryr, edyn eryr,
 Mi fyddwn lawer gwell
 I hedeg at fy nghariad, at fy nghariad,
 Sydd yn y gwledydd pell;
 Dros diroedd maith a moroedd,
 Gobeithio'i fod e'n iach —
 Rwy'n caru'r tir lle cerddodd, tir lle cerddodd,
 O wraidd y galon bach.

Cystal ychwanegu un sylw ynglŷn â geiriau'r gân: mae cymaint o gymysgu i'w gael yno ag sydd yn yr alawon! Ni fanylaf ar hyn yma, dim ond nodi y daw hynny'n ddigon amlwg ped edrychid yn unig ar y tri phennill a ganwyd yrŵan. Arwyddocâd y sylw yw mai ofer yn aml yw chwilio am resymeg a threfn mewn geiriau cân werin. Clytio ynghyd benillion a llinellau y digwyddid eu cofio yn weddol rwydd y byddid ar brydiau, heb orfanylu ar fod yn berthnasol.

Yn nosbarth y caneuon sy'n cyffwrdd, mewn amrywiol ffyrdd, â'r ochr dywyll i serch y mae'n rhaid gosod ein trydedd gân; y dosbarth, er enghraifft, y perthyn "Yr Eneth Gadd ei Gwrthod" iddo, cân y clywodd J. Lloyd Williams gang o weision ffarm yn ei chanu ar y trên o Bwllheli i Gricieth un tro, wedi iddyn nhw fod yn ei rafio hi mewn ffair gyflogi. Ond cân arall sydd gennyf mewn golwg yrŵan, un a recordiodd D. Roy Saer o ganu William H. Ellis, Mynytho, yn 1964; fel "Cân Plasnewydd" yr adwaenir hi yn Llŷn.

Fy rheswm penodol dros oedi hefo hon yw ei bod yn dangos peth mor frau y gall cân werin fod ac mor ddrylliedig yw ambell amrywiad arni. Dyna, wrth gwrs, yw tynged llawer peth sydd wedi gorfod byw ar lafar dros gyfnod o flynyddoedd. Mae'r esiampl arbennig hon hefyd yn dangos sut y gall newid mewn chwaeth gyhoeddus effeithio ar gynnwys cân fel bod yr hyn sy'n dderbyniol gan un genhedlaeth yn annerbyniol gan genhedlaeth arall. Dyma fel y canwyd hi gan William H. Ellis:

Pan oeddwn i'n myned,
 Ddy' Sadwrn brydnawn,
 Heibio Plasnewydd
 A'r lloer oedd yn llawn,
 Cwrddais â merch ieuanc
 Â llanc yn ei llaw
 Yn myned trwy y goedwig
 I ochel y glaw.

“Beth ydych chi’n wneud yma,
Dim ond chwi eich dau?
Nid ydyw hi yn amser
I hel y cynáu;
Mae’r gwenyn bach heb hedeg,
A’r defaid heb ŵyn;
O! gwyliu, lân ferch ieuanc —
Gan pwy cei di gŵyn?”

Yn ddiweddarach cafodd D. Roy Saer bennill ychwanegol oddi wrth Thomas Williams, Sarn, ac awgryma’r pennill hwnnw bod a wnelo’r gân â phrofiad merch y mae ei chariad wedi troi ei gefn arni yn nydd ei chyfyngder. Dyma’r pennill:

Ond cyn pen y nawmis
Fe glwyfodd y ferch,
Hi gafodd ei dewis
O wrthrych ei serch;
Fe aeth at y meddyg
I adrodd ei chŵyn,
Ei llaw o dan ei ffedog
A’i bol hyd at ei thrwyn.

Mae’n werth sylwi ymhellach bod Thomas Williams yn ansicr ynglŷn â llinellau 3 a 4 yn y pennill hwn ac, yn wir, nid oes fawr o synnwyr ynddynt, fel y safant yma. Ond daw ergyd y cyfan yn gliriach, efallai, mewn amwyiad ar y gân a ddysgais i’n blentyn o glywed fy mam yn ei chanu ar yr aelwyd. Dyma honno; ar alaw wahanol i’r un o Lŷn:

A rhodio roeddwn inna ddydd Sadwrn y prynhawn
Yng nghanol y goédwig a’r lle oedd yn llawn:

Mi gwrddais â llanc ifanc â merch yn ei law
Yng nghysgod y goeden yn mochal y glaw.

Gofynnais inna iddynt, “Be’ ’chi’n neud yma’ch dau
A hitha ddim yn amser i hela y c(y)náu?”

A chyn pen y nawmis clafychodd y ferch,
Fe oerodd ei llygaid a rhewodd ei serch.

Eto byth, er bod y cwpled clo yn yr amrywiad yna yn ein cyflwyno ni i’r hyn y gellir yn weddol ddiogel ei gyfrif yn uchafbwynt y stori, mae’n dal yn amlwg mai stori anghyflawn yw hi.

Yn ffodus, cefais oleuni pellach arni mewn recordiad a ddaeth i'm llaw oddi wrth gyfaill imi, Penri Roberts; recordiad a wnaed ganddo o gymeriad o Lanrheadr-ym-Mochnant yn rhoi ei fersiwn ef o'r stori, ar alaw sy'n perthyn yn agos i'r alaw o Lŷn. Dyma'r geiriau o Faldwyn:

Rhodio mi roeddwn ddydd Sadwrn y pnawn
O amgylch y llwyni yn ochel y glaw:

Mi ddois ar lanc ifanc â merch yn ei law
O amgylch y llwyni yn ochel y glaw.

“Mae'r gwenyn heb hedeg, mae'r defed heb ŵyn;
Cofia di, ferch ifanc, o lle gei di gŵyn!”

Mi af i'w tŷ modryb i ddwedyd ei chŵyn
A'i llaw dan ei ffedog a'i bol at ei thrwyn.

Mi brynodd staes walbon a'i lasio-(h)i yn dynn,
Gan feddwl mewn difri' na choda'i bol hi ddim.

I lasio-(h)i yn y bora a'i llacio-(h)i prydawn;
“Fy mol sydd yn codi! Ow! Ow! Beth a wnawn?”

Yma eto mae gennym stori anghyflawn. Dyna inni, felly, dri dryll o gân ac er y gallwn, o'u hystyried gyda'i gilydd, gael syniad gweddol bendant am *natur* y stori, gŵr rhyfygus yn unig a feiddiai geisio adlunio ei rhediad yn benodol. Gŵr, ymhellach, y byddai'n ddoeth i'w gadw draw rhag astudio caneuon gwerin. Nid pethau i'w trin yn daclusgar mohonynt; rhaid eu parchu yn dameidiol fel y maent. Mater arall yw i fardd lunio cerdd ar sail rhyw un pennill neu gwpled y digwyddwyd ei gadw ar lafar.

Mae un gân serch arall, a gofnodwyd yn Eifionydd, sy'n hawlio sylw fel un o'r caneuon gwerin hyfrytaf a feddwn fel cenedl. Perthyn hon i'r dosbarth hwnnw o ganeuon y gellir eu galw yn ganeuon ymgom ac y mae o leiaf saith ohonynt wedi eu nodi yn y rhannau hyn o Gymru, yn cynnwys ymgomion rhwng personau â'i gilydd neu rhwng person ac aderyn. Yn anffodus nid oes amser i'w trafod, ond ni fynnwn fynd heibio i'r un a ganwyd gan Richard Jones, torrwr beddau yng Ngarndolbenmaen: “Y Glomen”. Ymddengys mai dau bennill yn unig o'r gerdd a gofiai Richard Jones ond mae taflenni baled ar gael a ddengys bod saith pennill i gyd, ac yn y seithfed y daw gwir ergyd y gân i'r golwg. Gwrandewch ar y tri phennill cyntaf:

Fel roeddwn i ryw fore hawddgar
Yng nghwr y coed ac wrth fy mhlesar,
Ac uwch fy mhen mi glywn rhyw gloman
Yn cwyno'n glaf,
“Ow, beth a wnaif am f'annwyl gymar?”

A nesu wnes yn nes i wrando
Beth oedd y gangen ferch yn gwyno,
A nesu wnes a gofyn iddi:
“Y lana' o liw
A'r fwyna'n fyw, beth yw dy g'ledi?”

“Rhyw g'ledi mawr sydd yn fy mynwas
Wrth gofio'r cur a'r poen a gefas;
Wrth gofio'r mab â'r geiria mwynion;
I'm calon rhoes
Drwm glefyd loes — fe dyr fy nghalon.”

Yrŵan, mae'n amlwg oddi wrth y tri phennill hwn mai cân am siomiant serch sydd gennym yma eto, gyda'r glomen druan yn cynrychioli'r ferch a siomwyd. Ond pwy, tybed, oedd y “mab â'r geiria mwynion”? Go brin y disgwyliech iddo fod yr union ŵr sy'n annerch y glomen, ond dyna a ddengys y pennill olaf. Fel hyn:

Yng nghwr y coed mi glywn y gloman
Yn cwyno'n glaf am ei hannwyl gymar,
Ac am ei gwddf roedd aur yn gylchau
Lle bu'n faith,
Do, lawer gwaith, fy nwyfraich innau.

Am yr *alaw* gellir nodi ei bod mewn modd gwahanol i'r moddau yr ydych chi a minnau bellach wedi ein cyflyru i'w disgwyl, sef y moddau mwyaf a lleiaf. Yn y modd re y mae hon a dyry hynny naws arbennig iddi. Gan ei bod hefyd yn weddol gyfyng ei chwmpas mae o fewn cyrraedd llais pob un ohonom. Yn wir, o fewn y cwmpas hwn o wythawd y gorwedd mwyafrif ein caneuon gwerin.

2. *Caneuon Gorchwyl a Bro*

Gorchwylion yn ymwneud â'r môr a'r tir yw gorchwylion traddodiadol amlycaf Llŷn ac Eifionydd ac nid yw'n syndod o gwbl bod cymaint â deuddeg cân o leiaf ymhlith fy netholiad yn ymwneud, mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, â morwriaeth ac amaethu. Ystyriwn rai ohonynt gan ddechrau hefo dwy esiampl sy'n gysylltiedig â bywyd y môr.

(a) Mae caneuon ffarfél gan forwyr yn gyffredin ar hyd arfordir Cymru

gyfan ac o'r tair sy'n perthyn i'r penrhyn hwn y mae un sy'n rhaffu rhes o enwau lleoedd cyfarwydd i bob un sydd yma heno. Enwau eraill a geid gan forwyr Môn, Ceredigion a Phenfro; alawon eraill hefyd, yn aml. Ond gwrandewch yrŵan ar un o wŷr Pen Llŷn, William Rowlands, yn canu cân ffarwél a etifeddodd o:

Ffarwél fo i dref Porthmadog,
Ffarwél fo i far Traeth Mawr,
Ffarwél fo i Gastell Harlech,
Sydd bron â dod i lawr.
Trafaeliais y byd, ei hyd a'i led,
A thrwodd a thros y môr;
Bydd glaswellt ar fy llwybrau i
Cyn delwyf i Gymru'n ôl.
Cyn delwyf i Gymru'n ôl, fy ffrind(s),
Cyn delwyf i Gymru'n ôl,
Bydd glaswellt ar fy llwybrau i
Cyn delwyf i Gymru'n ôl.

Ffarwél fo i drwyn Penychain,
Ffarwél fo i'r Afon Wen,
Ffarwél fo i gastell Cricieth,
Sy â pholyn ar 'i ben.
Trafaeliais y byd, etc.

Ffarwél fo i drwyn Pen Cilan,
Ffarwél fo i S'tudwal's Road,
Ffarwél i dref Pwllheli,
Lle gwariais i lawer grôt.
Trafaeliais y byd, etc.

Ffarwél fo i Ynys Enlli,
Ffarwél fo i Bortin-llaen,
Ffarwél fo i Ynys Seiriol,
A'r sianel mawr o'i blaen.
Trafaeliais y byd, etc.

(b) Â physgota, i bob golwg, y mae a wnelo'r ail gân fôr a, hyd y gwn i, dyma'r unig gân werin gysylltiedig â physgota sydd wedi goroesi i'n cyfnod ni. Mae'r penillion a ddaeth i lawr inni yn bur annhrefnus, ar wahân i'r cyntaf a'r olaf, ond mae'r ddau hynny yn ddigon, greda' i, i roi blas y gân ichi. Oddi wrth ei chwaer-yng-nghyfraith o Gricieth y cafodd J. Lloyd Williams hon eto ac yr oedd hi, yn ei thro, wedi ei dysgu gan "Lowri Tŷ Bach."

Wrth ddweud ei bod yn gysylltiedig â physgota rhaid cydnabod mai cysylltiad amhendant iawn yw hwnnw; mae'r geiriau'n *sôn* am bysgota ond nid oes dystiolaeth o gwbl y byddid yn defnyddio'r gân wrth gyflawni unrhyw orchwyl; rhwyfo neu dynnu rhwyd, dyweder. Mae'n agor fel math o sgwrs rhwng pysgotwr a gwylan gefnddu ond ni ellir bod yn siwr, oddi wrth yr hyn sy'n weddill, ai sgwrs felly yw hi ar ei hyd. Ac am ryw reswm na allaf ei amgyffred ar hyn o bryd, newidiodd J. Lloyd Williams dipyn ar y pennill cyntaf wrth ei roi yn y Cylchgrawn gan fodloni ar roi'r un pennill hwnnw'n unig. Ond rwyf am ei chanu ichi yrŵan — y pennill cyntaf a'r olaf fel y dwedais gynnu — fel y ceir hi ymhlith ei bapurau, sydd bellach yn y Llyfrgell Genedlaethol. Sylwch, gyda llaw, fod yr alaw hon eto yn y modd re a bod y curiad yn newid o'r pennill i'r cytan; o guriad tri-chwarter i chwe-wyth:

Fel roeddwn ar fœreuddydd/Yn rhodio gyda'r wawr,
Cyfarfwm â'r wylan gefnddu/Ymgomio â hi awr,
Gan ofyn newydd iddi/O bob rhyw gwr o'r fro
Rhwing Ynys Enlli a'r Werddon/Lle buasai hi'n rhoi tro.
“Gwna dy ran am Isle of Man/A sbia bob rhyw gafn;
‘Does dim pysgota’n Douglas/Na chwaith yn Darbi Hafn!”

Os gofyn neb yn unlle/Pwy luniodd hyn o grap:
Hen ŵr sydd wedi'i drigain/Yn dechre gwisgo cap;
A'i enw'n ffeil oedd H a L/Drwy Fôn ac Arfon faith —
Os daw pysgota i Gymru/Fe delir am ei waith!

Mae'r caneuon sy'n ymwneud â bywyd y tir yn fwy niferus, a chyda'r rhain byddai'n llawn cystal inni gysylltu y cerddi bro a theulu, sydd hefyd yn bur niferus. Yn wir, gyda thrin eu cefndir yn weddol drylwyr, gellid neilltuo darlith gyfan i'r rhain yn unig. Dyna ichi, er enghraifft, gerdd Dafydd Dafis, Penllech, i “Coets Tir Gwenith” a cherdd Gwilym Jones (“Gwilym y Rhos”) i “Coets Tocia”; cerddi sy'n bwrw golwg ar gyfnewidiadau yn hanes trafnidiaeth y rhan hon o Gymru yn ystod y ganrif ddiwethaf, hanes y ceir peth ohono yn *Coaches and Coachmen of Lley*n gan Eddie Kenrick (Gwasg Gwenlyn, Caernarfon). A dyna hefyd y caneuon llofft stabal sy'n sôn am droeon trwstan ar ambell ffarneu mewn ambell ardal, eraill yn taflu peth goleuni ar amodau byw a gweithio y gweithiwr amaethyddol. Am olwg ar gefndir y rhain ni ellir rhagori ar y daflen a sgrifennwyd gan D. Roy Saer ac a gynhwysir gyda'r record *Caneuon Llofft Stabal*. Gallaf felly orffwys ar ysgwyddau pobl eraill a'ch annog i ddarllen eu cyfraniadau nhw gan droi, yn y cyfamser, i sylwi ar ryw dair cân sy'n codi o'r gymdeithas amaethyddol, un yn gân brotest, un yn gân ddigri' a'r olaf yn gân-daith dros froydd Llŷn.

(a) Gan Gôr Glannau Erch y clywais i'r gân hon yn cael ei chanu gyntaf

erioed ac y mae'n enghraifft dda o'r modd y defnyddir canu, o oes i oes, i leisio cwynion gwerin gwlad. Cyhoeddwyd y geiriau droeon ar daflenni-baled ond ni wn fy hun pwy a'u cyfansoddodd nac ychwaith ddim o hanes yr alaw. Fe'i casglwyd hefyd yng Ngheredigion. Dyma nodyn Tal Griffiths arni:

Canwyd i mi gan Dr O. Wynne Griffith, Pwllheli... Cof gan Dr Griffith glywed John Lloyd Factory Penprys Pentreuchaf yn ei chanu iddo tua 1890 neu cyn hynny. Gweithiwr ar ochr y ffordd oedd John Lloyd a mynych y pasiai y Doctor ef ar ei daith yn ei waith fel meddyg.

Mi ganaf dri phennill:

O paid gormesu'r gweithiwr tlawd
Sy beunydd dan ei bwn!
Os ydwyd ti yn blentyn ffawd,
O paid dirmygu hwn!
Llafuria'n fore ac yn hwyr,
A'i chwys yn fwyd i'r llawr,
Efallai heb damaid, Nef a'i gŵyr,
Dros lawer deuddeg awr.

O paid gormesu'r gweithiwr tlawd,
O gwêl mor wael ei lun!
A chofia hyn — mae iti'n frawd;
Bydd dirion wrtho, ddyn!
Cei di ddanteithion y pryd hyn,
Caiff yntau grystyn sych;
Trwy lafur hwn cei siwgr gwyn,
A gwisg, a phalas gwyh.

O paid gormesu'r gweithiwr tlawd,
Mae cyfoeth gan ei Dad;
Creawdwr bydoedd yw ei Frawd,
Cyn hir caiff yntau'i stad;
O wlad y gormes hed ei gri
I glustiau'r cyfiawn lys;
Ofnadwy fydd dy gyfrif di
Pan ddaw yr olaf wys.

(b) Go brin bod cerdd Gymraeg sy'n fwy poblogaidd na'r "Mochyn Du"; peth a fu'n fawr ofid i'w chyfansoddwr, y Parchedig John Owen, fel y daethpwyd i'w adnabod yn ddiweddarach! Ond mae gan Pen Llŷn hithau ei cherdd am fochyn; nid un a fu farw ond un a ddiflannodd mewn modd tra dirgel. Enw'r Houdini hwnnw oedd Mochyn Carreg Plas a

lluniodd un o “Feirdd y Rhos,” yn hanner ola’r ganrif ddiwethaf rywbyrd, gryn bymtheg pennill i ddathlu’r amgylchiad. Dyma ichi bedwar o’r rheini, yn cael eu canu, ar record *Caneuon Llofft Stabal* gan John Roberts, Rhydlios:

Digwyddodd tro go hynod
A barodd imi syndod;
Yng Ngharreg Plas digwyddodd hyn:
Dwyn mochyn un o’r hychod!

Ei oedran oedd chwech wythnos,
Sef mis ac un pythefnos,
Pan ddygwyd ef, er gwaetha’r drefn,
Rhyw awr tu cefn i’r cyfnos.

Chwiliasant dai Angelog
A chytiau moch godidog:
Er hynny oll, ond methu’n lân
Cael Siôn na Siân yn euog.

Ond hyn ddywedaf, eto,
Fel awgrym wrth fynd heibio:
Pwy bynnag sydd am gadw hwch,
Gofalwch am ei bwydo!

Dyna, wrth gwrs, gynnrych nodweddiadol o’r bardd gwlad, gŵr a gyfrannodd, ac sy’n parhau i gyfrannu, i ddifyrrwch sawl ardal.

(c) Codwyd y gân-daith o ganu Daniel Evans, Bryngwdyn, Y Ffôr, ond ni wyddai ef, yn anffodus, ddim ond un pennill o’r gerdd, pennill sy’n rhestru enwau lleoedd yn debyg i fel y gwneir yn achos “Deio i Dywyn”; mae llawer enghraifft arall i’w chael mewn barddoniaeth werin. Ond nid yw pethau mor eglur ag y carai dyn eu cael ynglŷn â rhai geiriau yn “Cân Ifan Brydydd Llein”. Er enghraifft, anfon aderyn ar daith y mae’r Ifan hwn ond i b’le yn union? A phwy oedd Ifan sut bynnag? Eto byth, beth yw ystyr y cyfeiriad at “lawr ’dernion”? Ond gwrandewch, i ddechrau, ar y gân:

Dos! annerch di-sen yn llawen mewn llewych
A chynnyrch wych hardd,
I Lanfair dros Ifan, fab egwan, y bardd:
Dros odre Penllech heb othrech, heb warthrudd,
Yn ufudd tan nen;
Tros Fynydd Cefn Amlwch sy â bwlch yn ei ben.

Tudweiliog ffordd dilyn,
Tros Edern a Nefyn,
Bydd sad a bydd sydyn, nid un dyn a'th deifl;
Rho wynt dan dy esgyll,
Ehed uwch y Pistyll,
Uwch Nant Gwrtheyrn dywyll, oer, erchyll a serth;
Nac ofna'r lawr 'dernion na dynion na dieifl!

Mewn cais am oleuni ar y cwestiynau uchod apeliais at fy nghyfaill Gruffudd Parry a chyda'i hynawsedd arferol anfonodd rai awgrymiadau. Gallai'r "Llanfair" fod yn Llanfair-is-gaer, ac ymddengys hyn yn dra thebygol i mi; mae yn y cyfeiriad iawn o leiaf! A gallai'r "Ifan" dan sylw fod yn "Ieuan Llein", a adwaenid hefyd fel "Ifan Brydydd", bardd o ardal Bryn croes. Byddai hyn eto yn ddigon tebygol, yn enwedig os oes tystiolaeth ar gael bod y gŵr o Fryn croes yn medru canu yn null y canu caeth newyd, fel y galwyd ef gan Thomas Parry yn *Baledi'r Ddeunawfed Ganrif*. Am "lawr 'dernion" y peth gorau imi ei wneud yw dyfynnu o lythyr Gruffudd Parry; mae ei awgrym yn un gogleisiol a chraff:

Chlywais i erioed am Edernion yn gyfeiriad at y lle na'r bobl na'r ardal.
OND — ar lethrau'r Eifl yn ochor Trefor mae yna le o'r enw Elernion — hen, hen enw y mae yna gyfeiriad ato yn y llenyddiaeth gynnar. Gan fod y bardd yn symud mor ddaearyddol fân, gallai hwn fod yn llithriad a chael "d" yn lle "l".

Rhagorol onid e? Mi fentwrn i grys go lew ar hwnna!

3. *Caneuon Defod a Gŵyl*

Mae'n eithaf sicr bod hela'r dryw wedi bod yn arferedig yn Llŷn ar un adeg; gwyddom i amrywiad ar gân sy'n gysylltiedig â'r arfer hwnnw gael ei nodi yno, hefo'r pennill olaf yn un tra arbennig ymhlith y gweddillion Cymraeg: mae'n sôn am rannu darnau o'r creadur bach ymysg y defodwyr, hynny er mwyn dwyn lwc dda iddynt, mae'n debyg. Dyma'r pennill:

Hegal i Dibyn, a hegal i Dobyn,
Aden i Risiart, ac aden i Robyn,
Haner y pen i Sion pen y Stryd,
A'r haner arall i'r cwbl i gyd.

Fel yna y ceir o yn y Cylchgrawn ond nid oes ragor i'w gael yno am y ddefod yn Llŷn. Ni wn chwaith am unrhyw ddisgrifiad o'r ddefod yn y rhan hon o'n gwlad; rhaid troi i waelodion sir Benfro am hynny gan i'r arfer barhau yno, ar ryw ffurf arno, hyd dro'r ganrif bresennol.

Ni wn ymhellach, a oedd canu Gŵyl Ffair yn ddefod yn Llŷn ac Eifionydd ond dangosodd Trefor M. Owen, Curadur Amgueddfa Werin Cymru, mewn erthygl hynod o ddiddorol, fod defodau'r ŵyl honno yn rhan o fywyd pobl Llanwnda a Llanfaglan yn hanner olaf y ddeunawfed ganrif ac fe nodwyd o leiaf un gân yn Eifionydd y gellir bod yn weddol sicr y byddid yn ei chanu yn ystod ymweliadau defodwyr Gŵyl Ffair. Gwedd amlwg ar yr ymweliadau hynny gan bartïon o wŷr ifanc â rhai o dai sylweddol eu hardaloedd, hynny o gwmpas yr ail o Chwefror, oedd ceisio mynediad i'r tai trwy ymryson canu â'r teuluoedd oddi mewn. Y ffurf a gymerai'r ymryson weithiau oedd canu am y cyflymaf a phe llwyddai carfan yr ymwelwyr i drechu'r teulu fe'u derbynnid i'r aelwyd a'u gwobrwyo, fel arfer, â bwyd a diod. Gyda hyn o gefndir gellir gwerthfawrogi y gân ddilynol — y mae sawl amrywiad arni i'w chael mewn gwahanol rannau o Gymru; dyma fel yr ymddengys yn *Cymru*, Chwefror 1900, ynghyd â nodyn dadlennol:

Cân yr Ych a Tharw, Blaidd a Chi

Cefais yr hen gân uchod trwy law fy nghyfaill Mr Hywel Jones, Chwilog, yn awr o Goleg Bala-Bangor, fel y cenid hi gan hen frawd doniol yn Chwilog. Yr oedd yr hen frawd yn rhyw hanner ganu hanner dawnsio wrth fyned drwy y penillion, a'r gamp oedd dweyd pob un o honynt ar un anadl. Elai yr hen gerddor dros naw ohonynt ar naw anadliad, — tasc nid hawdd ei churo. WATCYN WYN.

Wel, un o fy mrodyr a yrrodd i fi
Un ych, un tarw, un blaidd, un ci;
Uncarn, untroed, unblaidd, unci,
Ych a tharw, blaidd a chi
A yrrodd fy mrawd i fi.

Wel, dau o fy mrodyr a yrrodd i fi
Ddau ych, ddau darw, ddau flaidd, ddau gi;
Deucarn, deutroed, deuflaidd, deuci,
Uncarn, untroed, unblaidd, unci, etc.

Gellir hepgor dyfynnu'r gweddill o'r gerdd; mae'r egwyddor yn ddigon amlwg. Ond mae'n werth sylwi'n arbennig ar gamp yr hen ŵr, yn ei esgidiau hoelion trwm, gellir tybio. A sylwer ei fod o'n cymhlethu'r orchest trwy ganu'n gyflym bennill cyfan, waeth faint ei hyd, ar un anadliad gan ddawnsio yr un pryd! Gorchest yn wir. Rhowch gynnig arni.

A thra'n sôn am ymryson canu cystal nodi bod hyn yn elfen mewn sawl defod ac arferiad; yn rhywbeth hefyd a arferid wrtho'i hun fel ffurf ar ddiwyrrwch pan gasglai twr o bobl at ei gilydd am dipyn o hwyl. Dyna swyddogaeth cân a gododd J. Lloyd Williams, unwaith yn rhagor o ganu

ei chwaer-yng-nghyfraith:

Os wyt ti am ymryson canu,
Cais dy stôl ac eistedd arni:
Mi ymrysonaf tan y bore
Cyn y rhoddaf iti'r gore!
Wec ffol di rol, ffol di roldi rol di rol!

Cyfeirir at benillion eraill yn y Cylchgrawn ond y peth pwysig i sylwi arno yw y sonnir amdani fel cân a arferid lle byddai un canwr yn slensio un arall, hefo'r gynulleidfa'n uno yn y cytgan. Gwelir mai trethu cof a wneid mewn ymrysonau fel hyn, a phe digwyddai fynd i'r wal ar ganwr â'i gof yn ddifffgiol, gallai droi ei law wedyn at lunio pennill yn fyrfyr, a bwrw bod ganddo'r ddawn barod honno.

Diamau bod canu carolau haf yn rhan o fywyd y broydd hyn ddyddiau a fu ond un gân o'r fath yn unig a welais i wedi ei nodi yma, hynny gan J. Lloyd Williams yng Ngarndolbenmaen, yn 1890, a bugail o sir Drefaldwyn, yn wreiddiol, a'i canodd hi iddo. Am y tro, felly, rhaid mynd heibio i'r hen arfer hwn a bodloni ar brin gyfeirio ato.

Eithr mae tystiolaeth bendant ar gael i'r hen arfer o hela crempog: arfer yn wir a barhaodd hyd ddyddiau plentynod cyfoedion a chyfeillion i mi: er enghraifft, John Roberts Williams yn ardaloedd Llangybi, Pencaenewydd a Chwilog, a Ioan Mai Evans yn ardal Llithfaen. Yn yr hen ddyddiau, wrth gwers, Dydd Mawrth Ynyd oedd y cyfle olaf, fel 'tae, i fwyta'r blawd a'r bloneg a gadwyd dros y gaeaf, cyn dod o'r Grawys a'i ymprydio defodol. Ac ar ffurf crempogau y diflannai'r blawd a'r bloneg hwnnw i lawr gorn-gyddfau gwerin gwlad. Byddid yn canu, ar brydiau, wrth symud o ddrws i ddrws i hel y crempogau; dro arall, rhyw lafar-ganu rhigymau a wneid. Tystia J. Lloyd Williams am y gân "Os Gwelwch Chi'n Dda Ga'i Grempeg," yn ei ragair i *Hwiangerddi Cymreig* (1928) iddo dderbyn "gryn hanner dwsin o ffurfiau, a llawer ohonynt yn anghyflawn; ac eto yr oedd rhediad ac ysbryd yr oll yn bur debyg". Gwyddom oddi wrth y Cylchgrawn (III, 27) iddo gael un ffurf yng Nghricieth ac efallai mai hon oedd hi:

Modryb Elin ennog,
Os gwelwch chi'n dda, ga'i grempeg?
Cewch chwithau de, a siwgrw gwyn,
A phwdin lond eich ffedog.
Modryb Elin ennog,
Mae 'ngheg i'n grimp am grempeg;
Mae mam yn rhy dlawd i brynu blawd,
A Siân yn rhy ddiog i nôl y triog,
A 'nhad yn rhy wael i weithio:
Os gwelwch chi'n dda, ga'i grempeg?

Awgrymaf, gyda llaw, mai ffurf ar “Enoc” yw “ennog”: dichon mai Elin Enoc oedd enw'r wreigddda y gofynnid ffafr ganddi. Cofnodwyd pennill hel crempog yn ogystal o ochrau Llangwnnadi gan Grace Gwyneddon Davies ac un arall gweddol debyg iddo gan “Myrddin Fardd” ond ni welais gerddoriaeth ynghlwm wrth y rhain hyd yma. Dyma'r pennill o Langwnnadi:

Gwraig y tŷ a'r teulu da,
Os gwelwch chi'n dda, ga'i grempog,
A lwmp o fenyn melyn mawr? —
Mi aiff i lawr yn llithrig:
Os nad oes menyn yn y tŷ,
Rhowch grempog fawr gynddeiriog!

Ac y mae fersiwn gyflawnach o'r pennill hwn i'w gael yn *Caneuon Llafar Gwlad*, o ganu Thomas Williams, Sarn. Soniais gynnu am lafar-ganu rhigymau; wel, dyna a wneid â'r rhigwm hwn:

Wraig y tŷ a'r teulu da,
Os gwelwch chi'n dda, ga'i grempog?
Mae mam rhy dlawd i brynu blawd
A 'Nhad rhy ddiog i weithio.
Os gwelwch chi'n dda, ga'i grempog?
Mae 'ngheg i'n grimp am grempog!
Os nad oes menyn yn y tŷ
Rhowch lwyad fawr o driog,
Ac os nad oes triog yn y tŷ
Rhowch grempog fawr gynddeiriog,
Gynddeiriog, gynddeiriog!

Mae un ŵyl arall, yn bendant, y dylid sylwi'n fyr arni, sef y Nadolig a'r carolau oedd yn gysylltiedig â hi. Tair cân felly a ddigwyddais i eu gweld yn fy ffynonellau i ond mae'n siwr bod llawer yn rhagor i'w cael yn rhywle. Sylwn ar ddwy ohonynt.

Daw'r gytfa o Gwm Pennant; o leiaf dwed J. Lloyd Williams mai oddi wrth Dr Roberts, Blaenau Ffestiniog, y daeth y garol i'w law ac i'r meddyg llengar ei dysgu o ganu ei fam. “Isallt” oedd enw barddol Dr Roberts ac yn Isallt, Cwm Pennant, y ganwyd ac y magwyd o. Tebyg felly mai yno y dysgodd hi. Un pennill a gofiai ef, a hwnnw'n ail bennill o gerdd a gyfansoddwyd gan “Sion Ebrill” (John Richards, Pen-y-garth, ger Llanbedr, Ardudwy) sy'n dechrau â'r geiriau adnabyddus:

Roedd yn y wlad honno fugeiliaid yn gwylio
Eu praidd rhag eu llarpio'n un lle, . . .

Mae i'r gerdd gyfan wyth o benillion. Canai "Isallt" alaw sydd yn wahanol i'r un a arferir yn gyffredin gennym ni heddiw ond mae'r ddwy alaw yn perthyn i'w gilydd yn bendant, ac aelod arall o'r un teulu yw'r alaw a ddefnyddir gennym i ganu "O deued pob Cristion". Dyma'r pennill a wyddai "Isallt":

Ni chafodd Mair burlan o amgylch ei bachgen
Na rhwymyn, na gwlanen yn glyd,
Na pherlau, na pharlwr, na seigiau, na siwgrwr,
I Brynwr a Barnwr y byd.
Hi roes am yr Iesu gadachau i'w gynhesu,
A'r preseb yn wely'n ddiwad;
Fe genir yn uchel fod morwyn yn Israel
Yn magu'n dra thawel ei Thad;
Rhoes laeth i famaetha y Brenin o'i bronau,
A'i drin ar ei gliniau drwy glod;
O'i chroth yr esgynnodd, o'i dwyfron y porthodd
'R hwn ydoedd cyn bydoedd yn bod!

Cyhoeddwyd yr ail garol y carwn ei chyflwyno ichi yn rhifyn 1983 o *Canu Gwerin*, rhifyn teyrnged i J. Lloyd Williams yn ystod blwyddyn dathlu penblwydd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn bymtheg a thrigain oed. Gelwir yr alaw weithiau yn "Galar Gwŷr Ffrainc" a cheir amrywiadau arni yn Llawysgrif John Owen, Dwyran, Ynys Môn, casgliad o garolau Nadolig, gan mwyaf, a gasglwyd gan y gŵr hwnnw yn ardal ei febyd, llawer ohonynt wedi eu canu yng ngwasanaethau'r plygain yn Eglwys Llangeinwen. Mae i'w gweld hefyd yn *Carolau Awen Llyfnwy*, llyfr Robert Ellis, clochydd Llanllyfni. Ni wn pwy sydd piau'r geiriau ond haedda'r gân gael ei chynnwys yma gan ei bod, 'dybiwn i, yn debyg o fod yn newydd i'r rhan fwyaf ohonoch:

Dowch, dowch, yn awr o fawr i fân
I seinio clod i'r Iesu glân;
Mae Messiah wedi dod,
I'w enw glân datseiniwn glod.
Mawr sain gorfoledd sydd!
Daeth Crewr mawr y dydd!
Dofn, dofn ryfeddod yw
Gweld Duw yn ddyn a dyn yn Dduw!

A ninnau'n ystyried canu crefyddol yn y traddodiad llafar carwn grybwyll dwy gerdd arall, heb fanylu arnynt, sef "Cân y Patriarchiaid" (ar alaw "Lili Lon" neu "Y Mochyn Du", fel yr aed i'w galw o ganol y ganrif ddiwethaf ymlaen) a cherdd "Y Pren Gwyrddlas", a gyfansoddwyd,

mae'n bur debyg, gan Evan Powel, Llanfrynach, sir Frycheiniog, ac a genid ar amrywiad o'r alaw "Diniweidrwydd". Amrywiad ar honno hefyd a gaed ar gyfer un o "gerddi trychineb" Pen Llŷn, sef "Galarnad Cwch Enlli" a gyfansoddwyd, yn ôl D. Roy Saer, gan "Ieuan Lley'n" i gofio am suddo'r cwch "Supply" yn agos i Ynys Enlli ar y dydd olaf o Dachwedd, 1822. A chystal nodi un gerdd arall sy'n sôn am drychineb llai cyhoeddus, ond mwy cyffredinol, sef cân "Yr Eneth Glaf", cân y mae cryn ddirgelwch ynglŷn â'i tharddiad, yn eiriau ac alaw. Yn wahanol i'r ddwy arall y cyfeiriais atynt yrŵan, fodd bynnag, ni chredaf i hon erioed gael ei chynnwys ar daflen-faled i'w chanu a'i gwerthu yn y ffeiriau ac o ddrws i ddrws er y byddai wedi gwneud y tro i hynny yn gampus. Mae tinc boblogaidd o'r iawn ryw yn ei halaw a theimladrwydd a fyddai wedi bod yn dderbyniol gan gynulleidfa'r cyfnod yn ei geiriau. Carwn fedru dangos hynny ichi ond rhaid tynnu tua'r terfyn bellach a gwneud hynny trwy gyfeirio'n fyr at rai cerddi doniol, gan fodloni ar ganu un ohonynt yn unig.

Byddai'r rhain, wrth gwrs, yn ffefrynnau amlwg mewn llofft stabal a thafarn: caneuon fel "Y Llanc o Dyddyn Hen", "Y Lleuen", "Boneddwr Mawr o'r Bala" (un o gerddi tra phoblogaidd Ceiriog, i alaw Almaenig), heb sôn am rai o'r caneuon bro digrif y cyfeiriwyd atynt yn gynharach. Ond yr un y carwn i ei chyflwyno'n arbennig ar y diwedd fel hyn yw cân sy'n ymgorffori chwedl werin gydwladol, a hynny ar yr unig ffurf Gymraeg sydd i'w chael ohoni; ar gân o leiaf. Fe'i codwyd gan D. Roy Saer o ganu William Henry Ellis, Mynytho. Mewn troednodyn iddi yn *Caneuon Llafar Gwlad* dywedir hyn:

Yr oedd pennill ychwanegol ar lafar gynt yn yr ardal eithr nis cofiwyd gan W.H.E. ar adeg ei recordio.

Mae lle i amau a oedd William Henry Ellis yn gwneud ei orau glas i gofio'r pennill olaf hwnnw! Sut bynnag am hynny, trwy un o fechgyn Eifionydd deuthum o hyd i'r pennill rai blynyddoedd yn ôl a chael fy siarsio i beidio ag enwi yr ewythr a'i canodd iddo. Parchaf y gyfrinach ac o ystyried y pennill, 'synnwn i'r un mymryn bod William Henry Ellis o'r farn na fyddai'n weddus i aelod ifanc o staff yr Amgueddfa Werin gael gafael arno! Ni chanaf finnau o ichi heno. Yn hytrach, mi ganaf bennill olaf a luniais yn ôl y patrwm arferol a geir ar glo'r gân hon ymhlith cenedloedd eraill:

Cân y Cwccwallt
Mi eis i lawr i'm stabal
Fel yn yr amsar gynt,
Roedd yno geffyla gwynion
Yn mesul saith a phump;
Dychwelais at fy mhriod,
Gofynnais iddi hi

Beth oedd y ceffyla gwynion
Oedd yn fy stabal i.
Atebai hitha, "Gatffwl!
Ai dwl ai dall wyt ti?
Ond dwsin o gŵn hela
A roes fy mam i mi?"
Trafaelïais yr Amerig
A'r India fawr ei bri,
Ond pedola dan gŵn hela
Erioed nis gwelais i!

Mi eis i lawr i'm coetshws
Fel yn yr amsar gynt,
Roedd yno goetsh "carriages"
Yn mesul saith a phump;
Dychwelais at fy mhriod,
Gofynnais iddi hi
Beth oedd y coetsh "carriages"
Oedd yn fy nghoetshws i.
Atebai hitha, "Gatffwl!
Ai dwl ai dall wyt ti?
Ond dwsin o drolia teilo
A roes fy mam i mi?"
Trafaelïais yr Amerig
A'r India fawr ei bri,
Ond "springs" dan drolia teilo
Erioed nis gwelais i!

Mi eis i lawr i'm selar
Fel yn yr amsar gynt,
Roedd yno gasgia cwrw
Yn mesul saith a phump;
Dychwelais at fy mhriod,
Gofynnais iddi hi
Beth oedd y casgia cwrw
Oedd yn fy selar i.
Atebai hitha, "Gatffwl!
Ai dwl ai dall wyt ti?
Ond dwsin o botia menyn
A roes fy mam i mi?"
Trafaelïais yr Amerig
A'r India fawr ei bri,
Ond feis dan botia menyn
Erioed nis gwelais i!

Mi eis i fyny i'r gwely
Fel yn yr amsar gynt,
Roedd yno ddynion nobyl
Yn mesul saith a phump;
Dychwelais at fy mhriod,
Gofynnais iddi hi
Pwy oedd y dynion nobyl
Oedd yn 'y ngwely i.
Atebai hitha, "Gatffwl!
Ai dwl ai dall wyt ti?
Ond dwsin o forynion
A roes fy mam i mi?"
Trafaelais yr Amerig
A'r India fawr ei bri,
Ond barfa ar forynion
Erioed nis gwelais i!

Ol-Nodyn

A minnau wedi anfon hyn o lith i'w argraffu cefais oleuni pellach ar "Cân Ifan Brydydd Llein". Roedd Gruffudd Parry yn llygad ei le; "Ieuan Llein", sef Evan Pritchard (1769-1832), oedd y gŵr a luniodd y pennill: yn hytrach y deryn o bennill a geir yn y Cylchgrawn. Roedd yn gywir hefyd yn ei gynnig ynglŷn ag Elernion, oherwydd yn y gyfrol *Caniadau Ieuan Llein*, a gyhoeddwyd yn 1878 o dan olygyddiaeth "Myrddin Fardd", fel hyn y ceir y llinell berthnasol:

Nac ofna ar lawr 'Lernion na dynion na dieifl.

Ond sut y deuthum i wybod am y gyfrol honno o waith Bardd Bryncroes? Unwaith eto trwy gyfrwng y teulu Parry! Y tro hwn mewn ysgrif ar y bardd yng nghyfrol 26 o *Drafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*; ysgrif gan Syr Thomas Parry. Nodir ynddi bod y pennill dan sylw yn rhan o gerdd lle mae'r bardd yn gofyn am ffon oddi ar law Sgweier Plas Llanfair, neuadd a leolir hyd heddiw ar lan Menai rhwng Caernarfon a'r Felinheli, heb fod nepell o Lanfair-is-gaer. Plas Llanfair, felly, yw "Llanfair" y gân. Rhyngddynt, eglurwyd yr holl ddirgelion gan y ddau frawd, a hynny ar wahan i'w gilydd!

[Above is reproduced the script of a lecture delivered to Clwb y Bont, Pwllheli, Gwynedd, in February 1984. Meredydd Evans's study of the folksongs of the surrounding regions of Llŷn and Eifionydd is based on 67 textual examples, some created locally and others imported from outside mainly via oral tradition or "ballad" pamphlets. The study focuses upon

three major song-groups: (a) Love, courtship and seduction songs including chansons d'aventure-influenced / love-messenger / episodic narrative / night-visit / seduction / dialogue songs); (b) Occupational songs (two maritime — sailors' farewell / fisherman — and three agricultural — workers' protest / comic satire / eulogistic "topographical"); (c) Ceremonial and festival songs (wren-hunt / Candlemas(?) feat-song / Shrovetide pancake-begging song / alliterative-style Christmas carols). The lecture ends with a Welsh-language version of the internationally-known cuckoldry ballad of "Our Goodman" (Child No. 274), collected at Mynytho, just outside Pwllheli. Ed.]

VOCAL AND INSTRUMENTAL INTERACTION IN EARLIER “CANU PENILLION”

Phyllis Kinney

In 1693 Thomas D’Urfey wrote the words to a satirical song about a Welshman, “Of Noble Race Was Shinkin”, for his play “The Richmond Heiress”. The song was evidently sung to the accompaniment of a harp because an antiphonal phrase for that instrument is included in the music. Some years later, after a battle near Mons in 1709, D’Urfey used the air again. This time the music, as printed in *Pills to Purge Melancholy*, included two interpolated phrases for the harp and the song is described as “Set to a famous Tune on the Welch Harp” (Example 1). About 1715, the year in which The Honourable and Loyal Society of Antient Britons was founded, the tune was used again in “A Song to the Old Britons, on St. Taffy’s Day”. Here there is no mention of the harp but the phrases which were played by the harp in the earlier examples are now indicated by the use of nonsense syllables.

Ex. 1



Was “Of Noble Race Was Shinkin” originally a Welsh tune? J. Lloyd Williams was dubious; he describes it as “of doubtful Welsh origin”.¹ Certainly the earliest names connected with the tune are English. In

Richard Morris's 1717 manuscript the name appears once as "noble gacy skenkin" and twice as "noble gracy shenkin".² The tune book of John Thomas, dated 1752, calls it "noble rasar Jenkin".³ In *A Collection of Welsh, English and Scotch Airs* (1761) there are only four named Welsh airs, and one of those is "Of Noble Race Was Shenkin". A list of tune names which was sent, almost undoubtedly by the same Richard Morris, to Edward Jones in 1779 just before the publication of *Musical and Poetical Relicks of the Welsh Bards* includes "Of Noble Race Was Shinkin".⁴ In the earliest edition of *Relicks* in 1784 the tune is called "Shenkin" but later editions give it a Welsh name for the first time, "Y Gadlys". From that point on the Welsh name was found at least as often as the English and finally superseded it.

So was the tune originally Welsh? It is unlikely that D'Urfey himself wrote the tune, as his usual custom was to work with melodies that were not his own. But the tune might have been taken by an itinerant harper from Wales to London where it acquired English words. If so, it is odd that no Welsh title was retained for the tune in Wales. On the other hand the distinctive style of the song is in the Welsh tradition — and this is only to be expected. Its first appearance was as a song satirising a Welshman. Since the satirist makes his point by fixing attention on certain distinctive characteristics which will be readily recognised by his audience, it seems likely that the method of singing verses with harp interpolations was connected in the public mind with Welshmen.

Two eighteenth-century manuscripts cast a further light on the tradition of singing verses with the harp. The most interesting of these is a manuscript of Evan Williams and John Parry which seems to have been prepared in 1745 as a specimen of a second volume to follow *Antient British Music* (1742). The volume never appeared but the manuscript — which is today housed in the Parry Library, Royal College of Music, London — contains seven songs with Welsh words. Five of these have instrumental "symphonies", i.e., sections for instrument only, which appear before, after, or as interpolations in the stanzas of verse. All five songs begin with an instrumental opening but then the differences become more pronounced. Only one song, "Gadael Tir", is sung straight through without repeats; in all the others there is an opening symphony and also a symphony at the beginning of the second strain, and each section is repeated. In no case does the voice continue straight on after concluding the opening strain and in this characteristic the style is similar to that of present-day *canu penillion*. Indeed, "A Phrynn Sy Ar" is in form (though not in melodic line) very like *canu penillion* or *cerdd dant* as it is now known. Of the rest, two songs present an interesting picture of singing with the harp in the eighteenth century. "Sr Harri Ddu" starts with two bars on the harp and then voice and instrument alternate throughout (Example 2). In "Gwên Dando" the form is less symmetrical:

the opening section consists of alternate phrases for harp and voice, but the second strain starts with two bars of harp followed by six bars of voice to close off the section. More detailed analysis is made difficult by the probability that Evan Williams edited the music to suit an urban English taste.⁵

Ex. 2. SR HARRI DDU

Gwyn ei fyd a gae dy— ganlyn
 Harri fwyn a dwyn dy delyn
 Y nâs i orwedd yn dy freichiau
 Dawnsio'r dydd lle chwarae dithau.

There is another eighteenth century manuscript which may fall into this class. I have not seen the original, which is in the British Museum, but a copy made by J. Llŷd Williams is in the National Library of Wales. The manuscript notes the words and music of a Welsh air, “Blodau Llundain”.⁶ The words, like those to “Sr Harri Ddu” in the previous manuscript, are quatrains of trochaic tetrameters and although the manuscript is not entirely clear with regard to the placing of the words, it seems reasonably certain that the style of singing was like that of “Sr Harri Ddu”, i.e., regularly alternating vocal lines and instrumental symphonies. A note by J. Lloyd Williams gives the name Lewis Morris and the original manuscript may have been written by, or at least belonged to, the elder brother of Richard Morris. If the key signature is to be taken at its face value, the tune is in the Lydian mode.

By the end of the century it would seem that this particular way of combining words and instrumental symphonies was dying out. William Jones of Llangadfan in North Wales writes in a letter to Edward Jones, “Bardd y Brenin”: “Your endeavors to preserve the remains of our music and poetry induce me to send you the tunes of the May and Christmas carols, as they were sung in this Country but now begin to be neglected and likely to be intirely lost to the next generation.”⁷ Enclosed with the letter is a tune, “Mwynen Mai”, and above the melody line the directions

Ex. 3. MWYNEN MAI



“Sy” (?Symphony) and “So” (?Solo) (Example 3). William Jones includes two verses from May carols. The first is in the metre 7.7.7.6. with feminine endings to the first three lines and a masculine ending to the fourth. Beside this verse is another in a different metre, 8.8.8.6. all with masculine endings, and above this verse are the words, “Or thus without including the symphonies but at the beginning”. If the two different sets of words are noted down beneath the music it becomes clear that the words of the first set, having fewer syllables to the line, leave room for a limited harp flourish at five points during the song. I am indebted to Meredydd Evans for the suggestion that these settings may shed light on the meaning of the terms “*y ffordd hwyaf*” (the longest way) and “*y ffordd fyrraf*” (the shortest way). This point will be discussed later on.

William Jones also sent to Edward Jones a copy of another tune to be sung in the same fashion, i.e., with solo lines and symphonies (Example 4). Here the harp part is more elaborate than the short cadential flourishes found in the May carol and the song is closer to the style of pieces in the Evan Williams/John Parry manuscript. The tune must have been a popular one for it is found in more than ten versions, sometimes bearing the title, “Triban (Gwyr) Morgannwg”. Here, for the first time, this type of singing is unmistakably connected with South Wales. It is not known where William Jones found his example but the words he quotes suggest a Glamorganshire source.⁸

When Edward Jones published his first volume of *Relicks* he included a variant of this tune under the title “Triban Gwyr Morgannwg”, without words and without any indication that words were traditionally sung to it. Later editions carried words fitted to the tune by the editor, but they were English words written by Sir Walter Scott in a metre and stanza pattern which left no room for harp symphonies (Example 5). The *triban* is a four-line stanza in the metre 7.7.8.7., the 7-syllable lines having feminine endings and the 8-syllable line a masculine ending. The Walter Scott

words are eight lines of eight syllables each, all with masculine endings, and in putting these words to the *triban* melody Edward Jones completely changed its character.

However there must still have been singers at the beginning of the nineteenth century who remembered the old style, for "Ifor Ceri" (Rev. John Jenkins) included an example in his manuscript collection, *Melus-Seiniau Cymru*, under the title "Triban Morganwg" followed by a note in Welsh: "As the Triban is generally sung nowadays in Glamorganshire" ⁹ (Example 6). Here there is no opening prelude for the harp; instead, the voice sings a line followed by a symphony, the next two lines of verse are again followed by a symphony, and the final line of verse is capped by an extended symphony. Although the form is rather different from the William Jones version, the style is similar and the tunes are related.

By 1844, when Maria Jane Williams published the first book of Welsh traditional airs with Welsh words, *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg*, the old style of singing would seem to have disappeared. The first song in her book is "Triban Morganwg", and it is melodically related to the previous examples bearing this title (Example 7). But although her note to the song says, "This air is commonly sung in Glamorganshire, with a variety of words, to the Harp . . .", the song has now lost its symphonies, which have been replaced by "fal la la".

The air continued in popularity although by the present century it had lost not only its harp interludes but also its title. Two traditional variants from South Wales were collected early in the 1950s from singers who apparently learned them at the beginning of the century. One, which has retained its popularity to the present day, is sung to the words of "Yr Hen Wyddeles"¹⁰ (Example 8). Here the harp symphony after the first line of words (which was sung to "fal la la" in the previous example) has been replaced by the nonsense syllables "bwmba didl dei". The little scale passage after the third line of words has been lost altogether, but a burden has been added, echoing the formal pattern of the closing symphony in Example 6. The second traditional variant from South Wales has been pared down to the most basic elements of the air (Example 9). Only one line of nonsense syllables remains, sung after the third line of the *triban*, and there is no burden." But the melodic shape and note pattern link it firmly to the preceding examples.

Although the most common title for the air connects it to Glamorganshire, it was known and enjoyed in North Wales, for in addition to the versions previously cited the name appears three times in Richard Morris's manuscript compiled in Anglesey in the early eighteenth century. Twice it is listed along with other tune names, but Richard Morris also notes seven verses of a song under the heading in Welsh: "A doorway wassail-carol on triban morg[annwg]".¹² The verse-

metre quoted is actually *awdl gywydd*, but verse in that metre will fit *triban* tunes with the addition of an extra syllable in the first line to give it a masculine ending. In North Wales too its popularity continued, for two traditional variants were collected there about the beginning of this century: “Beth Wneir â’r Wraig Benchwiban”¹³ (Example 10) and “Fy Meddwl I a Fy Malais”¹⁴ (Example 11). The North Wales variants do not differ substantially from the South Wales examples; the two main differences being that they are the only examples where the first note after the opening anacrusis is not the tonic, and they are also the only examples in which the phrase before the final line of the *triban* moves downward instead of upward. But apart from these minor differences they belong to the same family.

The conclusions to be drawn from this study may be relevant to the discussion of certain aspects of Welsh traditional music: 1) the function of the refrain/burden; 2) the meaning of the phrases “*y ffordd hwyaf*” (the longest way) and “*y ffordd fyrraf*” (the shortest way); 3) the use of the terms “*dull y de*” (the South Wales style) and “*dull y gogledd*” (the North Wales style).

Up till now no study has been made of the function of the refrain/burden in Welsh traditional music. It may therefore be worth offering one or two suggestions. It is clear from the “Triban Morgannwg” variants that instrumental symphonies could be, and in some cases were, replaced by nonsense syllables. There is further testimony to support this. John Parry, “Bardd Alaw”, writes in 1820 of “Of Noble Race Was Shenkin”: “When this song is performed without an accompaniment, the singer imitates the symphony, and fills the measure by a burlesque ‘thrum, thrum’ . . .”.¹⁵ And according to “Llew Tegid”, writing in 1910, “It is quite common at the present day to imitate the harp for penillion singing with ‘nonsense syllables’ ”.¹⁶ Does the *Ancient National Airs* version of “Triban Morgannwg” represent a watershed in the tune’s evolution? Before that time the versions of “Triban Morgannwg” included the harp phrases; the variants after that time included nonsense syllables such as “bwmba didl dei” or “ffal-di-ral-di-ral” or “ffal-di-ri-di-lam tam”. But the *Ancient National Airs* version gives merely “fa la la”. There are six tunes in the first two volumes of the Journal of the Welsh Folk-Song Society in which the refrain/burden is either “fa la la” or “tra la la”; these were either interlaced refrains or burdens at the conclusion of the verse. One of these burdens belonged to a tune which was danced to,¹⁷ and this may indicate an instrumental connection; another tune, with a “tra la la” burden was contributed by a blind harpist.¹⁸ A third tune with a “tra la la” interlaced refrain comes from a manuscript belonging to the Glamorganshire harpist, Llewelyn Alaw.¹⁹ The late A.L. Lloyd, the English folksong authority, stated to me in conversation that he knew of almost no English folksongs with “fa la la” refrain/burdens and none with

“tra la la”. Is it then possible that the syllables “fa la la” represent a halfway stage between the purely instrumental refrain/burden and its replacement by the voice? This theory is advanced with hesitation; much more work needs to be done in this field but it is perhaps a starting-point.

It was suggested earlier that this style of singing to the harp may throw some light on the meaning of the words “the longest way” and “the shortest way”. Those phrases are occasionally found in Welsh on ballad sheets of the eighteenth century, following the tune name. Sometimes the phraseology changes and another form of words is used, in Welsh, such as “Mentra Gwen the old way”, “Duw Gadwo’r Brenin the old Welsh way” or in one case “Ymadawiad y Brenin or the King’s Farewell the shortest way as a hymn”. In *A Bibliography of Welsh Ballads Printed in the 18th Century*, 13 ballads call for “mesur triban” and three of those have the title “Triban ar ei hyd” (Triban at full length). It is possible that “ar ei hyd” may be a direction to sing the *triban* with instrumental interludes, thereby lengthening the tune. A comparison of all the examples of “Triban Morgannwg” shows that the earliest example (Example 4), with instrumental symphonies before and after each vocal line, is seven bars longer than the shortest example (Example 9), which has only one phrase of nonsense syllables. But that is not the only possibility. In *Antient British Music* there is an air which is variously called “Triban” or “Triban Llwyd” or “Triban Lewis Lwyd”. As with all the other airs in the collection, no words are given, but *tribannau* can be fitted to the tune in two different ways: a) two stanzas of *tribannau* can be sung, one after the other, without a break; b) lines of *triban* can be alternated with instrumental symphonies, starting with two bars of harp, then alternating voice and harp before finishing together. The tune was still in use late in the century for it was copied, almost note for note, into the tunebook dated 1778 of fiddler Morris Edwards; and a variant appears in *Relicks*, 1784, called simply “Tribann”. It is worth noting the difference between the latter tune and an air in the same volume called “Creigiau Eryri”. Although the term “triban” is not used in the title, a glance at the distinctive 7.7.8.7. rhythmic pattern of the phrases as well as a section marked “symphony” indicate that *tribannau* were almost certainly sung to the air. The tune, as written in *Relicks*, will fit two stanzas of *triban* if they are sung one after the other without a break; and this section is followed by a four-bar symphony. Perhaps that is what is meant by “triban at full length”? It remains a puzzle and more research needs to be done on this point.

More problems arise when we examine two other phrases often used to describe the singing of penillion: “*dull y de*” (the South Wales style) and “*dull y gogledd*” (the North Wales style). The former term has been taken to refer to the song-and-chorus pattern of singing which was assumed to be more prevalent in the south; the latter term was taken to

refer to the chanting of *penillion* in a kind of descant to the harp which was supposed to be favoured in the north. It is certainly true that North Wales — particularly the mountain fastnesses of the northwest — was the area which excelled in the latter style right up to the present century, but they also obviously sang and enjoyed the song-and-chorus type in the north as well as the south. Of 27 *tribannau* in the Journal of the Welsh Folk-Song Society which are extended by repetition, refrain or burden, or any combination of these, 13 were collected in North Wales and 12 in the south. Moreover, in an analysis of trochaic tetrameter quatrains in the Journal which are extended by repetition, refrain or burden, 29 were collected in the north and only 17 in the south;²⁰ and this result cannot be entirely explained by the fact that at that time most of the collecting was taking place in North Wales. It may be that the term “South Wales style” referred specifically to the singing of *tribannau* with harp interludes, as in the “Triban Morgannwg” examples. According to Tegwyn Jones the *triban*, though sung throughout Wales, achieved its greatest popularity in Glamorganshire and the surrounding area; and certainly some of the names given to it — “Triban Morgannwg”, “Triban Gwŷr Gwent” (Triban of the Men of Gwent) and “Mesur Gwŷr Deheubarth” (The Measure of the Men of the South) — link it with that part of the country in particular.²¹

On the other hand the terms may be related to the undoubted fact that in the eighteenth century the carol, the ballad, and the *anterliwt* were exceedingly popular in the north but made little or no impression in the south. In all three cases the poetry was complex, calling for complicated stanza patterns and a mastery of the bardic technique known as *cynghanedd*. The traditional tunes did not fit the new fashion and many airs were imported from England. This type of singing never really caught on in South Wales; and the term “South Wales Style” may have come into being, not because the song with refrain/burden was unique to the south, or even more popular there, but rather because the north was better known for other types of singing.

By now it is clear that this study has raised more problems than it has solved. It is time for someone else to pick up the torch.

REFERENCES

- ¹ *Journal of the Welsh Folk-Song Society*, II, 153.
- ² T. H. Parry-Williams, *Llawysgrif Richard Morris o Gerddi* (Cardiff, 1931), 81, 85, 105.
- ³ National Library of Wales, J. Lloyd Williams MS 39.
- ⁴ *JWFSS*, I, 118.
- ⁵ For an extended discussion of this manuscript see Osian Ellis's book *The Story of the Harp in Wales* (Cardiff, 1980) and the article “Hanes a Datblygiad Canu Gyda'r Tannau” by Meredydd Evans and Phyllis Kinney in the book *Gwŷr Wrth Gerdd* (Welshpool, 1981), 72-91.

⁶ National Library of Wales, J. Lloyd Williams MS 115.

⁷ NLW MS 171.

⁸ See the appendix "Rhai Ceinciau Triban" by Daniel Huws in *Tribannau Morgannwg* (Llandysul, 1976), 209-10.


⁹ NLW MS 1940.

¹⁰ *JWFSS*, IV, 60.


EXAMPLES 4-11 referred to above


4  Nid wyf i nouw yn prisio Am

5  Red glows the forge in Strigul's bounds & hammers din & anvil sounds & armourers with ir - on toil Barb


6  A ddewch chi, feibion cry - no, I

7  Tri phreth sy'n cwrru'nghalon, Fal la la la la la la la, Bod

8  Pan oeddw'n i gynt yn fach - gen, Bwmba bwmba bwmba didd dei, Heb Bwmba bwmba bwmba didd dei,

9  Ar fo - re pan yn rhod - io,

10  Beth wneir â'r wraig benchwi - ban? Ffal di ral di ral di ral di ral, Beth

11  Fy meddwl i a fy mal - ais, Ffal di ri di ban tam tali ridl i o, Oedd

- ¹¹ JWFSS, V, 20.
¹² LIRMG, 102.
¹³ JWFSS, I, 173.
¹⁴ JWFSS, II, 35.
¹⁵ *The Cambro-Briton*, I, 228.
¹⁶ JWFSS, I, 74.

fyned i lan-wynno, Na rhodio dim, na rhodio dim o'r
 many a steed for battle's broil, foul falls the hand which bends the steel A-round the courser's thundering heel
 gwmni'r merched heno? Ni gawn lawenydd

* gennyf arian ddigon, Cael wybren haf yn deig wrchben, yn
 feddw! fawr nag amgen, Ar
 Bwmba bwmba bei-bo. Ar

Cwrddyd unes â'r cadno, Ar frig y dyddet wrth
 wneir â hen gel truan? Beth wneir â thaf - lod
 mynd i'r coed o bwrcas, I chwilio am wialen ffeind yn llo, Di

¹⁷ JWFSS, I, 193.

¹⁸ JWFSS, II, 110.

¹⁹ JWFSS, II, 79.

²⁰ Phyllis Kinney, "The Tunes of 'Yr Hen Benillion' ", *Canu Gwerin*, 2/1979, pp. 30-45.

²¹ *Tribannau Morgannwg*, 25-6.

tir na'r wlad: Nid yw fy nghariad yno.

e'er shall dint a sable wound On fair Glamorgan's velvet ground.

gyda'r rhain A'r tannau main yn tiwnio.

deg uwchben, fal let la la la, A gwelod Gwen lliw'r hinon.

ferched glân mi rois fy mryd I 'hala'r byd yn llawen.

ole'r sêr, Ffal di ral di ral di ral, A chwarter gwydden ganddo.

heb ddin gwair? Ffal di ral di ral, Beth wneir mewn ffair heb ar-ian?

lal lal lo, A henw hon a'i hanes.

“YSTAFELL YR HEN ALAWON”

(“*The Old Tunes’ Room*”)

Rhidian Griffiths

Cyfrifir y ganrif ddiwethaf yn oes aur y cyfnodolyn yng Nghymru; ac mae lluosogrwydd ac amrywiaeth y cylchgronau a gyhoeddwyd yn adlewyrchu’n deg amrywiaeth diddordebau’r genedl. Ni ddylem synnu, felly, fod yna le i gerddoriaeth yng nghylchgronau cyffredinol blynyddoedd cynnar y ganrif. Yn *Seren Gomer*, *Y Drysorfa* a’r *Dysgedydd* yn y dauddegau a’r tridegau gwelir nifer o alawon, yn yr hen nodiant, wrth gwrs, wedi eu hargraffu mewn pedwar llais ar erwyddau agored. Ar y cyfan, emyn-donau oedd y rhain, nifer ohonynt o waith cyfansoddwyr o Gymry, eraill wedi eu benthyca o Loegr neu o wledydd eraill. Rhaid cofio nad oedd eto gasgliadau cyffredinol gan yr enwadau, a da o beth oedd cael tonau i’w canu yn y cyrddau cyhoeddus. Ond yn *Seren Gomer*, ac yno’n unig, gwelir hefyd ambell alaw genedlaethol, yn arbennig at wasanaeth cymdeithasau’r Cymreigyddion ar hyd a lled y wlad. Cyhoeddwyd “Ar Hyd y Nos” yn *Seren* 1837, er enghraifft, ac yn 1839 ceir tŷ gron, “Oes y Byd i’r Iaith Gymraeg”, “i’w chanu... yng nghyfarfodydd y cymdeithasau Cymreigyddawl”. Erbyn tua chanol y ganrif, fodd bynnag, aethai’r cylchgronau hyn yn fwy diwinyddol eu pwyslais ac yn llai cyffredinol eu rhychwant. Er bod *Y Dysgedydd* yn argraffu emyn-donau mor ddiweddar â’r saithdegau, roedd y diddordeb cynyddol mewn cerddoriaeth a amlygid mewn côr ac ysgol nos yn galw am sylw arbennig. Roedd y ffordd yn glir i gyhoeddi cylchgrawn neu gylchgronau cerddorol.

Yr arloeswr yma, fel mewn llawer maes, oedd “Ieuan Gwyllt”. Bwriodd ei rwyd i’r dŵr yn 1852 gyda *Blodau Cerdd*, ond ni pharhaodd hwnnw fwy na blwyddyn. Yr un fu tynged *Athraw Cerddorol* John Mills, Llanidloes. Ond yn 1861 aeth “Ieuan Gwyllt” ati’r eilwaith, a llwyddo. Ym mis Mawrth y flwyddyn honno ymddangosodd rhifyn cyntaf *Y Cerddor Cymreig*, rhagredegydd cyfres o gylchgronau megis *Cerddor y Tonic Sol-ffa*, *Y Gerddorfa*, *Cerddor y Cymry*, a’r mwyaf nodedig a llwyddiannus, *Y Cerddor*.

Addysgol a chlasurol oedd gogwydd *Y Cerddor Cymreig* ar y cyfan, ond dangosodd “Ieuan Gwyllt” awydd yn ogystal i ddiogelu cerddoriaeth draddodiadol. Mor gynnar â Mehefin 1861 cyhoeddodd lythyr gan Ellis Yltyr Williams, “Yltyr Eryri”, yn cwyno bod y Cymry

fel cenedl yn rhy ddiofal a difraw
yng nghylch ein cerddoriaeth a’n
cyfansoddwyr.

Hyd y gwelais, ni chafwyd ymateb sydyn i'w haeriad. Ond yn rhifyn Ebrill 1864 ymddangosodd llythyr pwysig gan David Lewis, Llanrhystud, yn annog y golygydd i gadw lle yn ei gylchgrawn i gofnodi'r hen alawon a oedd yn prysur ddiflannu o gof y werin:

Bydded i chwi agor *bazaar* yn y CERDDOR, a gwahodd cyfoethogion mewn cerddoriaeth i gyfranu o'u goludodd tuag ato.

Wedi enwi rhai alawon yr hoffai weld eu cyhoeddi, â yn ei flaen:

Nis gwn am un ffordd rwyddach i'w cael, a'u cadw rhag difancoll, na rhoddi gwahoddiad allan yn y CERDDOR i bob telynor, llenor, &c., i ddyfod a'u cyfran at y *bazaar*.

Addawodd "Ieuan Gwyllt" y byddai'n "gosod yr ystafell hon o'r neilldu"; a dyma agor yn ffurfiol "Ystafell yr Hen Alawon", a fu'n rhan ddiogel o'r *Cerddor Cymreig* tan ei dranc yn 1873.

Bu'r ddau ohebydd a enwyd yn gyfranwyr cyson at y golofn, ac maent yn haeddu sylw am eu bod ymhlith y pwysicaf o ragflaenwyr y casglyddion a ffurfiodd Gymdeithas Alawon Gwerin Cymru dros genhedlaeth wedi hynny. Ganed "Ylltyr Eryri" ym Methesda Fawr yn 1835, ac felly gŵr ifanc ydoedd pan sgrifennodd at "Ieuan Gwyllt" yn 1861. Bu'n chwarelwr ac yn ysgolfeistr yn ei fro ei hun cyn symud i Ddolgellau a dechrau gwerthu llyfrau. 'Roedd yn ddirwestwr mawr, ac o 1867 ef a arweiniai Gôr Undebol Dirwestol Dolgellau. Ef hefyd a roes gychwyn i Gylchwil Gerddorol Harlech. Cyhoeddodd lyfr o gerddi, *Odlau Ylltyr*, a llyfrau o ganeuon, *Alawon y Bobl* a *Caneuon y Bobl*. Bu farw ym mis Ionawr, 1911. Un o bobl y ffordd oedd Ylltyr. Crwydrai'r wlad yn gwerthu llyfrau, yn cwrdd â phobl, a gwrando ar eu canu, a chofnodi'r alawon. Yn wir fe'i disgrifiwyd yn *Y Cerddor Cymreig* fel un

nad yw yn foddlon fyned o un nod a ganwyd yng Nghymru i fyned ar ddifancoll.

Gellid dweud yn debyg am David Lewis. Brodor o Lanrhystud ydoedd, ac yno y bu fyw trwy'i oes hir, o 1828 i 1908. Dyma un a gyfunodd fyd y ganig a'r anthem a byd cerddoriaeth draddodiadol y Cymry: athro a beirniad, cynorthwyr ar sawl casgliad o donau cynulleidfaoel, cyfoeswr â "Thanymarian", J.D. Jones, "Owain Alaw" a John Thomas, Llanwrtyd; eto yn effro i werth a phrydferthwch yr hen alawon, nodweddiad nad oedd bob amser yn amlwg yn ei gyd-gerddorion.

Byddai'r ddau hyn yn gyrru alawon i'w hargraffu yn *Y Cerddor Cymreig*, neu yn enwi alawon yr hoffent eu cael, a gofyn i bobl eu nodi. Alawon telyn oeddynt yn fynych iawn, a nifer ohonynt wedi eu cyhoeddi

gan John Parry neu gan “Fardd y Brenin”. Ceid ffurfiau lleol ar un alaw megis “Ffarwel Ned Puw” a “Gwêl yr Adeilad” (Bydd angen erthygl ar wahân i drafoed y rhain). Ceid hefyd alawon offerynnol, megis rhai o waith John Williams. “Ioan Rhagfyr”. Anaml iawn y ceid geiriau gydag alaw, ond er y cyfrannu diwyd a fu dros sawl blwyddyn, daliai rhai i boeni. Yn 1872 sgrifennodd “Cantor” at “Ieuan Gwllt” fel hyn:

Er cymaint sydd wedi ac yn cael ei wneyd genych chwi ac eraill tuag at gadw ein hen alawon rhag myned i dir anghof, yr wyf yn credu fod lluaws o honynt eto ar hyd a lled y wlad, yn enwedig gan yr hen bobl.

Geiriau a allai fod yn arwyddair i'r Gymdeithas a sylfaenwyd yn 1908. Tybed pa sawl alaw a gollwyd i ni yn ystod treigladau blynyddoedd hynny?

Blwyddyn eto a oedd i'r *Cerddor Cymreig*. Ni ddangosodd *Y Gerddorfa*, a gychwynnwyd yn 1872, ddiddordeb mewn cofnodi alawon traddodiadol. Ceir rhai yn *Y Perl Cerddorol*, ond un gyfrol yn unig (1880) a gafwyd o hwnnw. Nid tan sylfaenu *Cerddor y Cymry* gan “Alaw Ddu” yn 1883 y gwelwyd eto golofn dan yr enw “Ystafell i Hen Alawon — Moesol a Chysegregid”: a diddorol yw craffu ar yr ansoddeiriau. Colofn achlysurol oedd hon eto, a bu Yllytr vmhlith eraill yn cyfrannu iddi. Yna yn 1889 cychwynnwyd *Y Cerddor* dan olygyddiaeth D. Emlyn Evans a David Jenkins. Yn fuan ar ôl cychwyn y cylchgrawn lleisiodd Eos Llechid yr-un gofid ag a boenai Yllytr yn 1861. Apeliodd ar i ddarllenwyr *Y Cerddor* yrru copïau o “Garol a Cherddi-dônau na buont erioed yn argraffedig”, gan addo danfon i mewn enghreifftiau o'i gasgliad yntau. Un arall o'r casglyddion oedd “Eos Llechid”. Owen Humphrey Davies oedd ei enw llawn, ac fe'i ganed yn 1828 ger Llanllechid. Bu'n gweithio yn chwarel y Penrhyn. Arweiniai gorau eglwysig; ac am wyth mlynedd, o 1870 i 1878, bu'n athro cerdd yng Ngholeg Hyfforddi Gogledd Cymru. Yna aeth yn offeiriad, yn y Rhiw, ger Pwllheli. Bu farw yn 1898.

Er gwaethaf apêl “Eos Llechid”, a chyhoeddi carol-donau o'i gasgliad yn *Y Cerddor* yn 1889, aeth tair blynedd heibio cyn agor yn swyddogol “Ystafell yr Hen Alawon” am y trydydd tro. O 1892 bu'n golofn led rheolaidd yn *Y Cerddor*, o leiaf nes cychwyn Cylchgrawn y Gymdeithas Alawon Gwerin yn 1909. Ac yn y colofnau hyn, yn anad unman, y cawn yr enghreifftiau llawnaf a mwyaf diddorol o hen alawon. Oblegid os trown at yr hen gylchgronau gan ddisgwyl canfod toreth o alawon a anghofiwyd gennym, cawn ein siomi. Yn un peth, mae nifer o'r alawon a geir yn *Y Cerddor Cymreig* hefyd ar gael mewn casgliadau gan John Parry ac eraill. Eithriad hefyd oedd nodi geiriau gydag alaw. Un rheswm dros hyn oedd mai o gasgliadau llawysgrif y codwyd yr alawon, ac nid oedd geiriau ar gael iddynt. Ceir enghraifft ddiddorol o hyn gan David Jenkins yn *Y Cerddor*, Rhagfyr 1910. Sonia ei fod, yn ystod ei ymweliad â'r Unol Daleithiau yn 1885, wedi gweld casgliad o alawon mewn llawysgrif a

gopiwyd gan Lewis Anthony, Wilkesbarre. Nododd Jenkins yr alawon, a'u cyhoeddi wedyn yn *Y Cerddor*, "ond nid oes geiriau iddynt". Mae'n siwr taw o dan amgylchiadau tebyg y cafwyd hyd i nifer o'r alawon a gofnodwyd yn y cylchgronau.

'Roedd rheswm arall dros ddiffyg geiriau, sef agwedd golygyddion y cylchgronau eu hunain. Cerddorion oedd "Ieuan Gwyllt," "Alaw Ddu," David Jenkins a D. Emlyn Evans a fynnai weld codi safonau. Perthynent i genhedlaeth a ddiwylliodd ei hun yn gerddorol trwy ymdrech aruthrol yn erbyn pob math o anfanteision a diffyg cyfleusterau addysgol. Mwy, perthynent i oes lle'r oedd dylanwad y traddodiad crefyddol ymneilltuol a dirwestol yn enfawr. Maswedd iddynt oedd y caneuon ffair a llofft stabal y gosodwn ni heddiw gymaint pris arnynt: dyma esbonio, mae'n debyg, y geiriau "moesol a chysegredig" uwchben colofn alawon *Cerddor y Cymry*. Yn aml, pan gofnodid alaw, gwahoddid beirdd i lunio geiriau "parchus" iddi. Ym mis Awst 1897, er enghraifft, nododd *Y Cerddor* yr alaw "O Pwy Yw Hon Sy'n Dod yn Hy?" a'i disgrifio yn "alaw Americanaidd", er taw yn Rhuddlan y cafwyd hi. Ni chofnodir y geiriau a ganwyd, ond gofynnir, "A all rhai o'n darllenwyr ein cynysgaeddu â geiriau dirwestol ar yr alaw?"

O gofio hyn, 'does dim rhyfedd mai cyff gwawd i David Jenkins oedd y Gymdeithas Alawon Gwerin newydd. Wrth nodi'r ffaith, yn *Y Cerddor*, Rhagfyr 1910, fod y Gymdeithas wedi cyhoeddi yn ei chylchgrawn enghreifftiau o ganeuon "Cyfri'r Geifr", mae'n cofnodi'r fersiwn a ddysgodd yntau yn ei ieuencid yn sir Frycheiniog (gweler isod), gan ei disgrifio yn "dôn fasweddol." Yna mae'n ychwanegu:

Yn ffodus i'n chwaeth, cychwynwyd côr yn y lle, a dechreuwyd dysgu 'Yr Haf', 'Yr Afonig', a 'Gwanwyn' (Gwilym Gwent); 'Y Gwlithyn' ac 'I'r ffynon ger fy mwth' (Alaw Ddu), a 'Gwanwyn' (Emlyn Evans), fel y cawsom ddigon ar ganu ffwlbri 'Yr Afr'. Heblaw ffolineb y geiriau, yr ydym yn methu gweld unrhyw wreiddioldeb na neillduolion yn yr alaw; ond dyna, gosodir gwerth ar unrhyw beth yn awr os gelwir ef yn 'Alaw y Werin' (*folk-song*).

Er hynny, go brin fod agwedd Jenkins lawn mor eithafol ag ymateb "Ieuan Gwyllt" i un o'r hen ganeuon a welir yng nghasgliad Maria Jane Williams. Ceryddodd un o ohebyddion *Y Cerddor Cymreig* yn 1864 am awgrymu nad oedd y fath beth â thonau maswedd. Eto cyfaddefodd y dylai pob alaw dda gymryd ei chymhwyso "at wasanaeth rhinwedd a moesoldeb." Cymeradwyodd ddefnyddio'r hen alawon cenedlaethol, ond cael "geiriau ag y gall cenedl foesol, sobr, grefyddol, fel cenedl y Cymry eu canu, heb niweidio eu harchwaeth nac anafu eu teimladau". Yr hyn sy'n synnu dyn yw'r esiamp y mae'n ei chynnig. Dyfynna'r alaw a genir ar eiriau Hugh Derfel, "Y Cyfamod Disigl" (sef "Y Gŵr a fu gynt o

dan hoelion”), gyda’r sylw yma:

Nid ydym yn ystyried y geiriau a geir gyda hi yn Nghasgliad Miss Williams, mewn un modd, yn rhai priodol; a charem yn fawr pe byddai rhyw un o’r beirdd yn cyfansoddi geiriau moesol priodol a thyner arni.

Dyma’r pennill a geir gan Maria Jane Williams:

Pan oeddwn ar ddydd yn cyd-rodio
Â’r bachgen bach glana’n y byd,
A welais yn bennaf daplaswr
Lle byddai’r ieuencid ynghyd;
Rhyfeddais yn aethus ei weled
Mor dawel ac isel ei wedd,
Yn curio o gariad merch ieuanc,
Yn barod i fyned i’r bedd.

Pennill a ystyriwn ni yn gwbl ddiiniwed. Daeth newid mawr ar chwaeth a barn o fewn canrif. Ar yr un pryd, dylem ochel rhag beirniadu’n rhy chwim. Onibai am “Ieuan Gwyllt” a’i debyg, a’u llafur diflino, ni fyddai fawr o olwg ar y wasg gerddorol yng Nghymru, nac yn wir ar gerddoriaeth, yn ystod y ganrif ddiwethaf. Rhaid gwneud yn fawr o’r hyn a gyflawnwyd, yn hytrach nag achwyn ar yr hyn na adawyd inni.

NODYN YNGLŶN Â’R ALAWON SY’N DILYN

Enghreifftiau yn unig a geir yma. Ceisiwyd copio gan mwyaf yr alawon lle’r oedd geiriau hefyd wedi’u cofnodi, a cheisiwyd osgoi’r alawon hynny a gyhoeddwyd eisoes yng Nghylchgrawn y Gymdeithas. Isod, hyd y bo maint a fformat yn caniatáu, lleolir yr enghreifftiau yn ôl adeg eu cyhoeddi.

[The article above discusses the publication of folksong in Welsh music periodicals of the Victorian and Edwardian periods, “Ystafell yr Hen Alawon” (“The Old Tunes’ Room”) being the best known column-title then used in this connection. The song-rescuing movement involved was to highlight conflicting allegiances. On the one hand lay the patriotic and antiquarian inclinations to preserve vanishing traditional music, while on the other was found the taste-cultivating concern of the aspiring “musician” and the moral-protective anxieties of the puritanical

Nonconformist. The sum total of items published was relatively low, and, significantly, many of those items were simply instrumental tunes. Texts were often omitted, not surprisingly, in a society where any secular folksong words might be seen as lacking the respectability and dignity worthy of a formal journal. Nevertheless, the editors and contributors of “Ystafell yr Hen Alawon” played their positive part in paving the way for the eventual establishment of our own Welsh Folk-Song Society in 1908. Given below are fifteen examples of songs published in Welsh periodicals from 1862 to 1910. Ed.]

1. LISA LÂN
(Fair Liza)



Y Cerddor Cymreig, 1862, t.109. Nodwyd y fersiwn hon ar yr alaw, heb eiriau, gan David Lewis, Llanrhystud. Cymharer y fersiynau a geir yng Nghylchgrawn y Gymdeithas, cyf. 1, tt.37-8, a chyf. 2, t.272.

Published 1862, minus its familiar love-song text. Noted at Llanrhystud, north Cardiganshire.


2. FFARWÊL I DRE CAERNARFON LON
(Farewell to Gay Caernarfon Town)

Ffar- wêl i dre •Caer- nar- fon lon, A'r mer- ched
i - fainc i gyd o'r bron; Rwy'n mynd i weld pa un sydd
well, A'i 'ngwlad fy huni, a'r gwle- dydd pell.

Y Cerddor Cymreig, 1863, t.84. Nodwyd gan "Ylltyr Eryri" o ganu Evan Williams, Llanengan. Codwyd y geiriau o'r *Cylchgrawn*, cyf. 4, t.37, lle y ceir alaw yn y modd Doriaidd.

Published 1863, minus its soldier's farewell text. Noted at Llanengan, Llŷn peninsula, Caernarfonshire.

3. ADAR MÂN Y MYNYDD (Little Birds of the Mountain)



Y Cerddor Cymreig, 1866, t.65. Canwyd gan ferch o Aberdyfi wrth odro: dysgasai hithau'r alaw yng nghymdogaeth Machynlleth. Dim ond y ddwy linell gyntaf o'r geiriau a roir yn *Y Cerddor*. Ceir cyfeiriad at y fersiwn hon yng Nghylchgrawn y Gymdeithas, cyf. 2, tt.219-20, lle y ceir hefyd y fersiwn fwy adnabyddus.

Published 1866, with the first two lines of its love-song text. Noted from an Aberdyfi, Merioneth, milkmaid at work.

4. FENYW FWYN (1) (Gentle Damsel)



Cerddor y Cymry, 1886, t.136. Nodwyd yr alaw a'r geiriau gan Benjamin Jones. Llwyneclyn, Corris, o ganu William James, Pontrhympont, ger Caergybi.

Published 1886, with its love-song text. Noted from near Holyhead, Anglesey.

5. BLE BYDDA' I 'MHEN CAN MLYNEDD?

(Where Will I Be in a Hundred Years' Time?)

1. Rhy'n cael fy llen- wi nos a dydd O dded-wydd ry - fedd-
 2. Mae chy-wed miw- sig di-ddig dôn Can- tor-ion' cu' na-
 o - dau; wrth weld yr haul a'r lloer a'r sâr Yn
 tur - iol Yn ca- ru'n gerdd- gar llaf- ar lais I
 dêr trwy'r e - ang - de - rau! Ond mae rhyw frath yn
 min- nau sy'n ddy- mu - nol; A bod dan frig coed
 fy nwy- fron Yn ddi- gon o ei - ddi - gedd I'm
 tew- frig, a'u Cang- hen- nau'n llawn cyng- ha- nedd, Ond
 gyr - ru'n wall- gof yn y fan; Ble bydd-a'i 'mhen can mly- nedd?
 ni chaf wran- do'n llon y llu 'n mol- ian-nu 'mhen can mly- nedd.

Cerddor y Cymry, 1883, t.18. Nodwyd gan "Morfyllu" o Dreherbert. Fersiwn ydyw ar yr alaw "Lazarus", cymh. Cylchgrawn y Gymdeithas, cyf. 1, t.141. Gwelir pennill 1, ynghyd â dau bennill arall, a'r alaw yn amseriad 6/8, yn *Ail Gasgliad o Alawon Gwerin Môn* (gol. Grace Gwyneddon Davies), dan y teitl "Gwawr Can Mlynedd".

Published 1883. Its text reflects upon a hundred years hence. Apparently from Treherbert, Glamorgan.

6. CONSET GWŶR ABERFFRAW (The Delight of the Men of Aberffraw)

A - gor - wn wiw ga - rol, l'w ga - nu'n bly -
Rhown fol - iant yn fil - oedd Ar dir ac aŷ
gein - iol, Fel an - rheg bo - re - ol bâr a - wen ;
for - oedd, I Ar - glwydd y llw - oedd yn lla - wen ;
Ne - wydd - ion da di - gym - ysg, Gwir hy - ddysg a gy - hoedd - wyd, Gan
Mae'n gor - wadd yn y Pre - seb Mewn pur - deb wy - neb ann - wyl ; Ewch
ddis - glair lu go - leu - ni, Mwyn ag - wedd fe'u my - neg - wyd :
a - to dan eich clwy - fa, Mae'n fe - ddyg pur - a' per - wyl :
I chwi, I chwi — Rai breu - ol er eich bri, Y
la - chad, la - chad —, Gwir hedd - wch a rhydd - had, Mae
ga - ned Ceid - wad Un - iawn Y - nad, O drefn - iad Un yn Dri,
yn ei rodd - i i blant tru - e - ni, Trwy'r G'lew - ni ddaeth i'n gwlad.

Y Cerddor, 1891, t. 17. Danfonwyd gan J. W. Huws, Llanfaelog, Môn. Esbonia iddi ei dysgu ryw hanner canrif ynghynt gan hen wraig a'i dysgasai tua thrigain mlynedd cyn hynny, h.y. tua 1780. Gwelir yr alaw yn Nicholas Bennett, *Alawon Fy Ngwlad* (Y Drenuwdd, 1896), t. 128.

Published 1891. An alliterative Christmas carol from Llanfaelog, Anglesey. Believed to derive from the 18th century.


7. Y DDEILEN DYBACO (The Tobacco Leaf)

Y ddei - len dy - ba - co sy'n dy - fod o bell, Boed
Mae hwn yn y bo - re'n ei liw - iau mor llawn, Ond
gnaeth y neu boed gwell a'i cy - me - ro; Ac fe - lly chwi
yn y pryn - hawn mae yn gwy - wo.
we - lach ym nin - nau bob rhai, Nad y - dym ni
y - ma yn hir i bar - hau; Nid y - dym ond
pob - ol mewn pe - byll o glai, Me - ddyl - inch bob rhai wrth ei
smoc - io.

Y Cerddor, 1892, t. 105. O ganu R. Roberts, postfeistr Llandderfel, a'i rhoddodd i D. Emlyn Evans.

Published 1892. Noted at Llandderfel, near Bala, Merioneth. A reflection on the transience of life.

8. CÂN YCHEN (Oxen Song)



- | | |
|--|---|
| <p>2 Fe welais fwy na hynny,
Fe welais farch yn dodwy,
A'r ceffyl llwyd yn tawlu bach,
A chelwydd iach oedd hynny —
Oho! was i</p> <p>3 O Duke a Dandi,
Ble buoch chi'n pori?
Ar Waunfawr
'N islaw Aberhonddu —
Oho! was i.</p> <p>4 Beth sydd yno well nag yma?
Porfa glas a dŵr ffynhonna'—
Oho! was i.</p> <p>5 Fe welais ddwy gabetsien
Oedd cuwch â chlochdy Llunden,
A phedwar dyn yn hollti dail
A phedwar gaing ar hugen —
Oho! was i.</p> | <p>6 Fe welais ddwy lygoden
Yn llusgo <i>coach</i> yn llawen,
O Gaerfyrddin i Gaerdydd,
A llestri pridd a halen —
Oho! was i.</p> <p>7 O Ring, O Ring, mae'r bwyd yn brin,
Mae blas ar beth; 'does dim ar ddim —
Oho! was i.</p> <p>8 O Brewer a Baker yn iwso tybaco,
Un o gnoi a'r llall i smoco —
Oho! was i.</p> <p>9 O tyn, O tyn, O <i>Ginger Wine</i> a Brandi,
Dewch'm <i>boys</i> ymlân lled handi —
Oho! was i.</p> <p>10 Mae gen i chwech o ychan
Sy'n well na chant o fechgyn;
Os galla' i gadw rheiny fry
Fe reda' i dros Benderyn —
Oho! was i.</p> |
|--|---|

Y Cerddor, 1893, t.30. Cenedid y penillion hyn ar ran o alaw "Bugeilio'r Gwenith Gwyn", gyda'r byrdwn "Oho! was i". Dyma sylw D. Emlyn Evans:

Ni chenedid yr alaw yn gaeth yn ôl yr amser a'r rhaniadau nodawl a roddir uchod, ond mewn dull adroddganol, ac amrywiaethid hyd y nòdau yn bur fynych — fe ganfyddir fod y geiriau yn gofyn hyn; ond sylwem y cedwid at y diwedd diad byr a swta — cyn cyrhaedd y fyrdwn, a'r hon a genid yn hamddenol.

Published 1893. Nonsensical and joie de vivre "floater" stanzas formerly sung to oxen at work in Breconshire or north Glamorgan.


9. DIFYRRWCH WILIAM OWEN PENCRAIG
(*The Delight of William Owen of Pencraig*)

Roedd bw-lynn di-a-ddurn yng nghe-sail y my-nydd, A'r mw-sng byth-wydd-las yn
Def-nyn-nau ca-wo-dydd, hin dy-ner a stor-mus, Fu'n gwly-chu ei rudd-iau am-
go-ron i'w do! yr hen, hen Ha-fo-ty oedd llys barn y cwm-wd, Pan
se-rau cyn co!
e-lai rhai i ga-nu, neu syrth-io mewn ffrw-gwd, Go-so-did yr a-chas heb
oe-di mewn clo-nan, Gan Da-fydd Ha-fo-ty a'i an-nwyl Ma-ri O-wan.

Y Cerddor, 1893, t.35. Nodwyd gan R. Iwan Jenkyn, Pontypridd, o ganu "Plennnydd" (Henry Jones Williams), a'i cafodd "ar un o'i deithiau trwy Gymru" yn Nhrefriw yn 1867. Hen alaw delyn: cymharer "Consêt William Owen Pencraig" yng Nghylchgrawn y Gymdeithas, cyf. 2, t.154; *Welsh Folk-Songs*, wedi eu trefnu gan J. Lloyd Williams, cyf. 3; a Nicholas Bennett, *Alawon Fy Ngwlad*, t.42.

Published 1893 but obtained at Trefriw, in the Vale of Conway, in 1867. The text eulogises a mountain cottage and its inhabitants.

10. FENYW FWYN (2)
(Gentle Damsel)



Y Cerddor, 1893, tt.130-31. Nodwyd yr alaw, heb eiriau, gan Thomas Jones, Brynmelyn, Llandderfel, o ganu R. Roberts, postfeistr Llandderfel.

Published 1893, minus its love-song text. Noted at Llandderfel, near Bala, Merioneth. Cf. 4 above.

11. CÂN YCHEN (2)
(Oxen Song)



2 Mae merched bach y Blaena
Yn gwisgo *fringe* a lasa;
Modrwy aur ar ben bob bys,
A chwt eu crys yn llapra!

5 Tri pheth ni câr un Cristion
Yw dadwrdd haid o feddwon;
Gweld offeiriad maes o'i go',
A byw lle bo cybyddion.

3 Mae merched bro Morgannwg
Bob amser yn y golwg;
Yn tynnu llawer llencyn mwyn
Dros dwyn i dorri'i wddwg.

6 Tri dawnsiwr gora 'Nghymru,
Syr Charles o Gefen Mabli;
Sgwieier Lewys wych o'r Llan,
A Syr John Carn o Weni.

4 Mae merched pert Gwladforgan
Yn gwisgo gynau sidan;
Mae rhain mor feined yn eu gwast
Â chynffon gast Siôn Bifan.

7 O ryfedd faint y dwli
I'r byd sy'n cael ei gorddi:
Ar Sul i'r Siol yn enw llaeth —
Mae'n meddwi'n waeth na brandi.

Y Cerddor, 1896, t.92. Codwyd i'r *Cerddor* o erthygl gan "Cadrawd" (T.C. Evans), "Ploughing with Oxen in Glamorgan", *Red Dragon*, cyf. 3, 1883, tt. 136-40, 430-34, Daw'r gân o ardal Margam a Llangynwyd.

Published 1896. Light-hearted "floater" stanzas that were sung to oxen at work in Glamorgan. Cf. 8 above.

12. FENYW FWYN (3)
(Gentle Damsel)

Fe-nyw fwyn, grran-do gâyn Un sy'n cur-io er dy
fwyn; Mae i mi ddir-fawr gri Ddydd a nas o'rh a-chos
di: Wy-lo'r dŵr 'rwy'n ail i'r don, Gwêl fy mriw o dan fy
mron; Ac o-ble-gid saeth-au Cu-pid, Dar-fu
gwrid, go-fid gwael.

Y Cerddor, 1903, t.43. Nodwyd yr alaw a'r geiriau gan T.W.J., o ganu Owen Edwards, tad O.M. Edwards, yn Llanuwchllyn yn 1854-55.

Published 1903. Love-song text. Noted 1854-55 at Llanuwchllyn, near Bala, Merioneth. Cf. 4 and 10 above.

13. MAIR SYDD YN WYLO (*Mary Is A-Weeping*)

Mair sydd yn wy - lo, Mair sydd yn wy - lo,

Mair sydd yn wy - lo Ar ôl yr le - su mwyn. Ar

ôl yr le - su mwyn, Ar ôl yr le - su mwyn,

Mair sydd yn wy - lo Ar ôl yr le - su mwyn.

Y Cerdor, 1908, t.51. Adroddir yr hanesyn hwn gyda'r alaw:

Yr oedd un o'r aelodau seneddol Cymreig wedi clywed hen ŵr yn canu y dôn ar un o heolydd Llanelli, ac wedi sylwi arno yn gwneyd llun y 'groes' â'i ffon ar y llawr pan ddeuai at y gair hwnw. Nid oedd gan yr hen gantwr yr un esboniad i roddi; ond tybiai yr aelod anrhydeddus ei bod yn bosibl fod y dôn, a gwneyd arwydd y groes, wedi dod lawr o'r amser pryd yr oedd y wlad o dan iau Pabyddiaeth.

Ceir y geiriau a'r alaw yn *Caniedydd Ieuan* yr *Ysgol Sabbothol* (Caerfyrddin, 1858), rhif 18. Cymharer alaw "Yr Asyn a Fu Farw".

Published 1908. Text (excluding repeats): "Mary is a-weeping/After gentle Jesus". Noted in Llanelli, Carmarthenshire. Previously published in a Sunday School song-collection of 1858.

14. CANEUON CALAN (New Year Songs)

1. Mae Dydd Ca-lan we-di gwawr-io, Dydd tra hy-nod, dydd i'w
2. 'Rhwn sy'n me-ddu aur ac ar-ian, Ded-wydd y-dych ar Ddydd
gof-io, Dydd i ran-nu, dydd i dder-byn, Y - dyw'r
Ca-lan, Braint y rhai sy'n ber-chen modd-ion yw cyf-
cyn- taf yn fiwy-ddyn. 3. Rhwm sŷd â chy-foeth at ei
ran-nu peth i'r tlad-ion.
ga-dw, Nid oes llydd-iant i'r dyn hwn-nw, Neb a
gad-wo bob rhyw gein-iog Sydd yn cas-glu i'r god dy-llog.

1. Mi go-dais he-ddiwn fo-re, I ddy-fod at eich
2. Go-beith-io caf fynd a-dre Yn lla-wer iawn fy
tai, I 'mo-fyn am chwe chein-iog, Neu gym-ryd beth sy lai.
lles: Fy nghod yn llawn o ar-ian, A ba-ra, caws a phras.

Y Cerddor, 1911, t.53. Cyflwynwyd y ddwy gân gan William Williams, Ystrad Rhondda, a gofiai eu canu yn Nhal-y-bont, Ceredigion, tua 1860.

Published 1911. Two New Year quête songs, initially learnt by their chronicler at Tal-y-bont, north Cardiganshire, around 1860.

15. MAE GAFAR ETO
(There Is Another Goat)

Araf iawn

Mae ga-far e-to heb ei god-ro, ga-far
ddu, foel - ddu, fin-ddu, fon-ddu, fe-len, gyn-
ffon-ddu, foel, â chw-dyn a chyn-ffon ddu.

Y Cerddor, 1910, t. 137. Cofiai David Jenkins glywed hon yn ei fro enedigol yn Nhre Castell, sir Frycheiniog (Gweler ei sylwadau uchod). Y gamp oedd canu'r rhan olaf mor gyflym â phosib, ac amrywid y lliwiau, fel arfer. Cymh. y fersiwn debyg o sir Frycheiniog a gyhoeddwyd yng Nghylchgrawn y Gymdeithas. cyf. 1, t. 93.

Published 1910. A Trecastle, Breconshire, version of the widespread cumulative song often called "Oes Gafar Eto?" ("Is There Another Goat?").

ADOLYGIAD (REVIEW)

Ceinion y Gân, gol. E.G. Millward,
Gwasg Gomer, 1983, 110tt. pris £5.75.

Nid mewn gwagle y ganwyd ac y cyflwynwyd y cerddi hyn. Maent yn rhan o wead cymdeithasol penodol ac ni ellir na'u deall na'u gwerthfawrogi oni wyddom rywfaint am natur y gwedd cymhleth hwnnw. Rhaid eu perthnasu i sefydliadau a syniadaeth eu cyfnod.

Dyma fyrdwn Rhagymadrodd y gyfrol ddiddorol hon, a dylid ei ddarllen ochr yn ochr ag ysgrif arall a luniwyd gan E.G. Millward ar gyfer *Y Traethodydd*, Ionawr, 1981, o dan y pennawd "Canu'r Byd i'w Le". Yno mae'r awdur yn ymosod yn egniol ar yr "heresi feirniadol mai gwerth llenyddol yn unig sydd i lenyddiaeth", a da y gwna hynny. Bu'n heresi a safodd yn hir rhyngom â gwerthfawrogi peth o lenyddiaeth y ganrif ddiwethaf, er bod dyn yn rhwym o ychwanegu i'r heresi honno, fel llawer heresi arall. ddwyn nifer o fendithion yn ei chôl. Serch hynny, mae pwyslais canolog E.G. Millward yn un i'w groesawu ac yn anhepgor i'r sawl a fydd gael blas ar ddarllen y cerddi hyn a'u tebyg.

Efallai mai'r prif rwystr ar ein ffordd ni, drigolion y wladwriaeth les, i werthfawrogi'r cerddi hyn yw y wedd deimladol amlwg a berthyn iddynt. Nid y lleiaf o gymwynasau'r detholydd-olygydd yw dangos, i ddechrau, bod rhai datblygiadau ym meddwl, hydeimledd a chwaeth y cyfnod yn rhoi bod i hyn yn ddigon naturiol. Yn llenyddol, yr oedd canu am hynt a helynt pobl gyffredin yn wedd amlwg ar y Mudiad Rhamantaidd, a chodai hynny yn rhannol o gydymdeimlad â'u cyflwr. Yn wir, gyda threigl y ganrif daeth yn ffasïynol i ogoneddu a delfrydu y gweithiwr cyffredin nes i wrthrych tosturi droi yn wrthrych edmygedd. Yn grefyddol, gwelwyd lliniaru ychydig ar Galfiniaeth haearnaudd cyfnod cynharach ac o ganlyniad i'r newid hwn yn hinsawdd ddiwinyddol ddechrau'r ganrif "hawliai'r gydwybod ymneilltuol gan y bardd a phawb arall wareiddio ei gymdeithas ac ymarfer rhinweddau fel elusengarwch a thosturi" (t. xix). Yn foesol, cafwyd rhai meddylwyr dylanwadol yn dadlau bod mwy i gyflawni dyletswyddau moesol na chydabod, yn ddeallusol felly, ymrwymiad i wneud hynny, yn groes, yn aml, i dueddiadau emosiynol cryf. Mynnwyd bod gwedd deimladol i ymwybyddiaeth foesol a bod angen *ysbrydoli* dynion, eu cyffroi yn emosiynol, os ydynt i gyflawni eu dyletswyddau tuag at gyd-ddyn. Mae'n berthnasol sylwi yma i J.S. Mill ddod i deimlo hyn fwyfwy fel yr heneiddiai; fel y gwelir yn amlwg wrth ddarllen ei ysgrif ar Coleridge. Mynegir y safbwynt yn gryno gn E.G. Millward fel hyn: "... wrth fyfyrion ar drueni — neu ddaioni — dyn, deffry cariad, cydymdeimlad, tosturi ac edmygedd yn y galon a gweithredir yng ngwres y brwdfrydedd cynnes hwn" (t. xx). Y gair

“gweithredir” sy’n allweddol yma.

Dyma, felly, enghraifft ragorol o waith awdur y gyfrol yn gosod y cerddi yng nghefndir syniadaeth y ganrif. Rhaid *deall*, i ddechrau, pam y rhoir cymaint o amlygrwydd ynddynt i fynegi a chynhyrfu teimladau. Y mae’r un mor angenrheidiol i wahaniaethu, wedyn, rhwng “teimlad a gordeimlad neu ffugdeimlad” (t.xviii). Nid gwaith hawdd mo hynny, bid siwr: er enghraifft, ni all ystyried *ymddygiad* person weithredu fel maen-prawf wrth fesur a phwyso cerdd ar bapur; nid yw hynny’n ymarferol yn yr achos hwn. Serch hynny, rhaid ceisio gwahaniaethu fel hyn rhwng cerdd a cherdd; ni wnaiff y tro o gwbl i wadu nad oes lle i fynegiant teimlad mewn barddoniaeth, a gorsymleiddio enbyd a fyddai dibrisio’r cerddi dan sylw trwy eu disgrifio fel cerddi “anniffuant”.

Cyfarwyddyd arall arwyddocaol yn y Rhagymadrodd yw ar inni gofio am gefndir gwleidyddol, economaidd a diwydiannol y cerddi. Nodaf un enghraifft o arwyddocâd hyn. Gwelodd y ganrif ddiwethaf gryn gynnwrf a therfysg cymdeithasol yn ystod y tridegau a’r pedwardegau a daeth y galw am ddiwygiad yn fwyfwy i’r wyneb. Yn wir, bu galw digamsyniol mewn rhai mannau am chwyldroi cymdeithas, a thrwy hynny crewyd tyndra a dueddai i rannu a rhwygo cymunedau. Ar un llaw, safai gwŷr a fynnai weld amlygu mwy o dosturi, elusengarwch a chydymdeimlad ar ran y rhai yr oedd yn dda eu byd arnynt, ond heb anelu at unrhyw gyfnewidiadau o bwys yn y drefn wleidyddol. Ar y llaw arall, safai’r gwŷr a ystyriai fod anghyfiawnder a gormes yn *gwreiddio* yn y drefn honno ac nad oedd dim amdani felly ond defnyddio grym gwleidyddol, mewn amrywiol ffyrdd, i drawsffurfio’r sefyllfa. Y wedd geidwadol a geir, gan amlaf o lawer, yn y cerddi poblogaidd. Teimlai’r prydyddion i’r byw dros y tlawd, y weddw a’r amddifad, eithr yr oeddent, yr un pryd, yn gynheiliaid y drefn oedd ohoni ac arswydent rhag cynnwrf a gwrthryfel. Er enghraifft, pan yw Ben Bowen yn apelio ar ran glowyr ar streic am gyfraniad ariannol tuag at leihau peth ar gyni eu teuluoedd, er cywired ei fynegiant o gydymdeimlad â nhw, gofala nodi ar yr un gwynt mai gofyn am *elusen* y mae:

Ffarweliwyd â chartrefi draw
Am law o help tosturi,
Nid help i herio meistri yw,
Ond help i fyw mewn tlodi; . . .

Eithr nid oedd llais gwrthryfel yn hollol fud yng Nghymru chwaith ac y mae mwy na chondemnio gormes ac anghyfiawnder i’w gael mewn ambell gerdd. Gwrandawer ar R.J. Derfel:

Dydd tywyll fydd dydd y dialedd
I dreiswyr goludog y byd,
Ond dydd o lawenydd a llawnder

I bobloedd y ddaear i gyd;
Dydd adfer y tir a'i drysorau
Yn feddiant parhaus i bob un,
Pan gaiff pob llafurwr feddiannu
Holl ffrwyth ei ddiwydrwydd ei hun.

Dewisais dreulio cymaint â hyn o ofod gyda'r Rhagymadrodd hwn (sy'n cynnwys llawer sylw arall y gellid yn fuddiol gnoi cil arnynt) oherwydd mai annoeth, i'm tyb i, a fyddai darllen y cerddi "yn oer" fel petai. Y darn rhyddiaith hwn, wedi'r cyfan, ynghyd â'r nodiadau gwerthfawr ar y diwedd, sy'n gosod arbenigrwydd ar y gyfrol. Y rhain sy'n gwneud y cerddi'n fyw, yn ddadleniad dirweddol o hynt ein hynafiaid. Ac o'i hystyried felly rhaid cydnabod ar unwaith ei bod yn gyfrol hynod o lwyddiannus. Diolched rhai o fyfyrwyr Cymraeg Aberystwyth am gael tywysydd mor ddisglair a brwdfrydig trwy labrinth llenyddiaeth boblogaidd y ganrif ddiwethaf.

Eithr beth, bellach, am rai o'r cerddi eu hunain? Dichon y byddai sylwi'n frysio ar un esiamp o bob dosbarthiad arnynt (mae pedwar dosbarth felly) yn ddull mor effeithiol ag y gellid ei gael i godi blas ar ddarllenwyr. Dyna'r hyn a haedda yr awdur. Dechreuwn, felly, gyda cherdd o'r dosbarth cyntaf.

(1) "*Hen Le Bendigedig*"

Y gerdd fwyaf awgrymog yma, efallai, yw "Y Teulu Dedwydd"; cerdd gan Samuel Roberts yn clodfori sefydliad y gosodid mawr werth arno gan y Victoriaid.

Fel gyda phob propagandydd medrus, darlun delfrydol a geir ganddo a delfrydau ymneilltuwr o Gymro sy'n llunio'r cyfan; hynny yn gymen ddigon. Nid yw'n ddiystyr o gonfensiynau llenyddol o bell ffordd; yn wir, ymhyfryda mewn odlau mewnol a ieithwedd gain, ond diamau mai ar gyflwyno cynnwys y ddelfryd y gosodai'r prydydd y pwyslais pennaf.

Cyflwynir ni yn y tri phennill cyntaf i gartref y teulu, a'r bardd yn mynd â ni trwy'r allanolion dymunol, megis, at y sylwedd ysbrydol y tu mewn. Ond hyd yn oed wrth ddarlunio'r allanolion gellir synhwyro consyrn y moesolwr: mae muriau'r bwthyn "yn galchedig wyn / Bob mymryn mewn ac allan"; casgl gwenyn yr ardd y mêl yn ddiwyd "cyn daw'r drycin"; "mewn diogel bant" y trefnwyd i'r plant chwarae. Dyma gynneddf ar y prydyddion-bregethwyr hyn: gwelant ddameg ac alegori ym mhopeth o'u cwmpas.

Calon y gerdd yw'r portread o'r Teulu Dedwydd. Dyma'r sylwedd ysbrydol sy'n cynnal yr holl rinweddau, a'r awgrym cyntaf yw mai un o amodau'r dedwyddwch a berthyn i'r teulu yw diwydrwydd pob aelod ohono:

Y Teulu Dedwydd yno sy
Yn byw yn gu ac annwyl,
A phob un hefyd sydd o hyd
Yn ddiwyd wrth ei orchwyl.

“Ffordd y diog sydd fel cae drain”, medd awdur Llyfr y Diarhebion: “Amen”, seinia prydyddion y ganrif ddiwethaf. Ond mynnent hefyd fod rhagor i ddedwyddwch na diwydrwydd ynglŷn â gorchwylion beunyddiol. Sylfaen y cyfan iddynt hwy, S.R. yn eu plith, oedd buchedd lân yn cael ei chynnal gan ymarferion crefyddol ar yr aelwyd, mewn capel ac eglwys. Neilltuir bron bedwar pennill o'r gerdd i yrru'r hoelen hon adref.

Yn glo i'r cyfansoddiad ceir dau bennill a hanner sy'n datgan cyflwr cyfoethog aelodau'r teulu yn hyn o fyd — eu cyflwr ysbrydol, nid materol, bid siwr — ac yn clodfodi'r etifeddiaeth sy'n eu disgwyl mewn byd a ddaw. Y mae'r condemnio Piwritanaidd ar foethusrwydd y cyfoethog yn effeithiol:

Gwir nad oes ganddynt ddodrefn aur,
Na disglair lestri arian,
Na llawrlen ddrudfawr yn y tŷ,
Na gwely-lenni sidan.

Ni feddant seigiau mawr eu rhin,
Na melys win na moethau,
Na thuedd byth i flysio'n ffôl
Frenhinol arlwyadau; . . .

(2) “*Pa Beth Sy'n Hardd?*”

Cerddi am y fam a'r ferch ddelfrydol sydd yma'n bennaf; ffigurau hynod o bwysig ym meddylfryd y Victoriaid. Da y dywedodd rhywun, rhywdro, mai “Hen Wlad fy Mamau” a ddylai fod yn bennawd ein hanthem genedlaethol. Mae'n arferol rhoi'r lle canolog i'r tad Victoraidd yn Lloegr ond yng Nghymru, yn bendant, perthyn hwnnw i'r fam. Dyna, o leiaf, dystiolaeth y cerddi poblogaidd, a chyflwynir darlun deniadol ohoni yng ngherdd Glan Padarn “Can y Fam i'w Phlentyn”.

Dyma enghraifft dda o gerdd y bu cryn argraffu arni ar daflenni baled er nad oes lle i gredu mai ar gyfer baledwyr y bwriadwyd hi gan y bardd ei hun. Yn wir, disgrifir hi gan Syr T.H. Parry-Williams yn *Elfennau Barddoniaeth* fel “Hwiangerdd (lenyddol ymwybodol)” a cheir ymdriniaeth fanwl a gwerthfawrogol ohoni ganddo (tt. 50-1). Mynnai R. Williams Parry yntau: “nid oes dlysach cân yn Gymraeg na ‘Chân y Fam i'w Phlentyn’ Glan Padarn” (*Rhyddiaith R. Williams Parry* t.62). Dyna yn sicr, ddigon o dystiolaeth i rinweddau lenyddol y gerdd.

Dylid ychwanegu y cynnwys yr adran hon hefyd gerddi yn tosturio wrth y ferch a dwyllwyd (thêma gyffredinol iawn yn y canu gwerin) ac un gerdd gan S.R., yn rhybuddio llanciau rhag y butain ddengar; cerdd, gyda llaw, sy'n seiliedig yn y pen draw ar seithfed bennod Llyfr y Diarhebion lle disgrifir "y fenyw â'r ymadrodd gwenieithus". Hynny a gyfrif am linellau moethus fel hyn:

Fy ngwely drwsiais â cherfiadau gwydh,
Ac â sidanaidd lenni teg eu drych;
Mwg derthais ef ag ennaint peraid iawn,
O aloes, myrr a sinamon, mae'n llawn.

Go brin bod yr amheuthun bethau hyn ar gael i lanciau a llancesi Llanbryn-mair! Dwed y golygydd yn un o'i nodiadau mai addasiad o gerdd Saesneg yw hon.

(3) Cwyn a Chydwytod

Yma cenir cwynion a disgrifir cyni anffodusion cymdeithas: y tlawd, yr amddifad, y gweithiwr gorthrymedig, yr hen a'r rhai dan anfanteision corfforol a meddyliol, y caethion hefyd a'r dioddefwyr dan arteithiau cosb y gyfraith.

Cyfansoddwyd rhai o'r cerddi i'w canu, wrth gwrs, a'r rheini ar alawon poblogaidd gan ofalu am nodi enw'r alaw ar ben y pennill cyntaf. Roedd marchnad barod ar gyfer caneuon felly ymhlith perfformwyr a gwrandawyr y cyngerddau, yr eisteddfodau, y cyfarfodydd dirwest a'r darlleniadau ceiniog. Fe'u hadroddid hefyd, fel y dengys y Rhagymadrodd. Eithr lluniwyd rhai ohonynt yn unawdau penodol gyda chyfeiliant ffurfiol; daethai hyn yn gyffredin iawn o'r chwedegau ymlaen wedi i'r Cymry Cymraeg ddechrau meistrolï'r piano ac egwyddorion sylfaenol cyfansoddi cerddoriaeth. Cân felly oedd "Corn y Glyn"; y geiriau gan Ap Deiniol a'r gerddoriaeth gan David Parry, A.U.C.W., Bethesda. Mae copi o'r unawd yn digwydd bod yn fy meddiant; y cyhoeddi (fel yn achos nifer o unawdau'r cyfnod) gan J. ac E. Jones, Market Square, Llannerch-y-medd, ond heb ddyddiad, os cofiaf yn iawn. Bu cryn ganu arni, gellir tybio, ac aeth hithau hefyd yn rhan o sypynnau cerddi'r baledwyr crwydrol a'u gwerthai mewn ffair a marchnad ac o ddrws i ddrws. Fel caneuon poblogaidd yn gyffredinol cartrefodd "Corn y Glyn" ar lwyfan y festri ac ar sgwâr y dref.

Cân ydyw am wraig a phlentyn yn cael eu hamddifadu trwy farwolaeth y tad mewn damwain; yn y chwarel, mi dybiwn. Mynegir y cyfan yn gryno a chynnil mewn pedwar pennill sy'n agor yn heulog a gobeithiol ond yn diweddu'n drist, awgrymog:

Ymgasglodd ar yr aelwyd
Gymylau fwy na mwy,
Darfyddodd gwrid ei gruddiau,
Mae'i chalon bron yn ddwy;
Mae'r 'Corn' o hyd yn canu
Fel arfer yn y Glyn,
Ond ni ddaeth ef fel arfer
Yn ôl i'w fwthyn gwyn.

(4) "*Y Môr a Maes y Gad*"

Clywir adleisiau yma o drychinebau ar faes y frwydr a thonau'r cefnfor
a'r gerdd fwyaf syfrdanol ohonynt, yn ddiamau, yw'r detholiad o
"Gogoniant y Filwriaeth" Caledfryn; syfrdanol gan iddi gael ei chanu
mewn cyfnod ymerodrol dros ben, gyda'r Cymry mor gyfoglyd o
jingoistaidd â gweddill trigolion Prydain Fawr, bondigrybyll. Efallai
bod y bardd wrth ddychanu yn gorbastynnu tipyn yma ac acw ond mae
ambell bennill ganddo yn ddeifiol; er enghraifft:

O du yr iawn ymladdai'n gwŷr,
Wrth rwygo'n ddewr â'r cleddyf dur;
Rhydd pawb drwy'r wlad dystiolaeth lawn
Fod Lloegr beunydd ar yr iawn.

Ni fydd ein gwŷr mewn nwydau drwg,
Cynddaredd ddofn, na rhaib na gwg,
'Ond lladd er mwyn gogoniant Duw,
Er agor ffordd i'w deyrnas wiw'.

Mae'r bai yr ochor draw o hyd;
A ni'n ein lle 'mhob cwr o'r byd;
Wrth losgi tai a rhwygo plant,
A gollwng rhaff i bob rhyw chwant.

Roedd Caledfryn yn aelod amlwg o'r Gymdeithas Heddwch ac nid ofnai
lefaru'n hyglyw dros ei argyhoeddiadau.

Eithr gan fod yr adolygiad hwn ar gyfer Cylchgrawn Cymdeithas
Alawon Gwerin Cymru priodol a fyddai ei ddirwyn i ben trwy gyfeirio'n
arbennig at gerdd Gwenffrwd "Bedd y Morwr Mwyn". Cofnodwyd y
pennill cyntaf ohoni yn *CCAGC*, II, tt.189-90, gan J. Lloyd Williams o
ganu Robert Jones (Dwyfor) yn 1918, ef wedi ei dysgu o ganu ei dad, a
anwyd tua 1822. Dyma sylw golygydd y Cylchgrawn ar y gân:

The tune though simple differs much from the typical folk-tune and
shows some of the self-consciousness of the composed tune.

Diamau ei fod yn iawn. Eithr pwy a gyfansoddodd yr alaw? Efallai y daw hyn i'r fei rywbyrd.

Yn y cyfamser dylai fod croeso cynnes i *Ceinion y Gân* gan bawb sy'n ymddiddori yn niwylliant poblogaidd Cymru. Mae'r gyfrol yn ffenestr ragorol ar y ganrif ddiwethaf. Byddai bod wedi cyhoeddi'r gerddoriaeth gyda rhai o'r cerddi a genid wedi bod yn dra derbyniol, ond nid beirniadaeth ar y gyfrol mo hyn eithr, yn hytrach, gofyn am fwy o bwddin ar ddiwedd pryd blasus a digonol ynddo'i hun.

MEREDYDD EVANS

[*A review of Ceinion y Gân, edited by Mr E.G. Millward, Senior Lecturer in the Department of Welsh Language and Literature, University College of Wales, Aberystwyth. The volume, whose title translates as Gems of Song, contains the texts of some sixty popular Welsh-language songs of the Victorian period, most of them produced by acknowledged poets. Often condemned by twentieth-century critics on literary grounds and for their overwhelming sentimentality, these songs are reappraised by Mr Millward in an Introduction which evaluates them as reflectors of their own social context. Ed.]*

MARWOLAETHAU (OBITUARIES)

MRS KITTY IDWAL JONES

Yn niwedd Ionawr, yn ei chartref ym Mhlas Penucha, Caerwys, bu farw Mrs Kitty Idwal Jones, Llywydd y Gymdeithas yn ystod y cyfnod 1974-76.

Ganed hi yn 1898 yn Llundain, yn ferch i'r gwleidydd J. Herbert Lewis, A.S., a'i wraig Ruth. Cofiw'n am ei mam (Lady Herbert Lewis yn ddiweddarach) fel casglydd caneuon gwerin, golygydd dwy gyfrol ohonynt, a Llywydd amlycaf y Gymdeithas. Arweiniwyd diddordeb y ferch hithau i'r un cyfeiriad, ac er mai yn Llundain yr aeth i'r ysgol cafodd hefyd y profiad o fynd gyda'i mam i gasglu caneuon yng Nghymru, ac i gyfathrachu'n agos â rhai o ffigurau blaenllaw y mudiad canu gwerin, megis Dr Mary Davies, Morfydd Llwyn Owen a Dora Herbert Jones.

Yr oedd yn genedlaetholwraig bybyr. I Aberystwyth, yn hytrach na Rhydychen neu Gaergrawnt, y dewisodd fynd i brifysgol a bu ganddi erioed ddiddordeb brwd yn y Pethe. Troes ei chartref yn noddle i amryw gymdeithasau Cymraeg a Chymreig, a chadwodd ei chyswllt â Chymdeithas Alawon Gwerin Cymru, gan wasanaethu fel aelod o'r Pwyllgor Gwaith am dros chwarter canrif yn ystod y cyfnod 1947-73, cyn dod yn Is-Lywydd yn 1973 a'i hethol yn Llywydd y flwyddyn wedyn.

Prïododd ag Idwal Jones, a fu yn ddiweddarach yn Athro Addysg yn Aberystwyth, a gedy dri o blant ynghyd ag wyrion. Cyflwynwn ein cydymdeimlad i aelodau'r teulu, ac yn enwedig i'w brawd Dr Mostyn Lewis, gŵr a estynnodd hefyd lawer o gymorth i'r Gymdeithas, fel y rhoes help llaw gyda pharatoi hyn o lith.

MRS ANNIE LUMLEY

Fis Mawrth eleni bu farw Mrs Lumley, gwraig a fu'n aelod ffyddlon o Bwyllgor Gwaith y Gymdeithas am ymron ugain mlynedd, o 1963 hyd 1980. Ag Aberdyfi y cysylltw'n hi, ond er iddi ddod i fyw yno mor gynnar â chyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf, o Flaenau Ffestiniog yr hanai yn wreiddiol. Yn wir, trysorai ar ei chof amryw o ganeuon gwerin yn ogystal â chwaraeon plant o'r cynefin hwnnw. A gwnaeth ddefnydd helaeth o'i chynhyrfaeth maes o law wrth fynd o gwmpas tua sir Feirionnydd i ddarlithio ar ganeuon gwerin, a hynny gan gyflwyno'r holl enghreifftiau ei hunan yn ddigysfeiliant. Un o'r caneuon y bu'n gyfrwng i sicrhau ei gosod ar gof chadw yw "Hen Wraig Fach yn Rhoi Llaeth i'r Llo", a dyfodd wedyn yn ffefryn mor gadarn.

Estynnwn ein cydymdeimlad â'i phriod, Mr Idris Lumley, ym Mronallt, Aberdyfi, a hefyd â'r meibion a'u plant hwythau.

NEWYDDION CWTA

75ain Pen Blwydd y Gymdeithas

Cafodd yr achlysur gryn sylw gan y wasg a'r cytryngau yng Nghymru. Ymddangosodd ysgrifau arbennig yn "Y Cymro", "Y Faner", *Cerddoriaeth Cymru, Taplas, Cwlwm*, y "Western Mail" a'r "Daily Post" ac fe'i trafodwyd ar "Rhaglen Hywel Gwynfryn" (teledu BBC Cymru), "Gwerin" a "Helo, Bobol!" (Radio Cymru) a "Four, Five, Six" (Radio Wales). Llwyfannwyd arddangosfa luniau (wedi ei darparu gan Amgueddfa Werin Cymru) yn Sain Ffagan a Llangollen, a disgwylir iddi gael ei dangos wedi hyn ym Mangor ac, o bosibl, yn Eisteddfod Genedlaethol Llanbedr Pont Steffan.

Y Cwrs Penwythnos

Cynhaliwyd un 1984 yn Ngregynog, a rhoed darlithiau gan Rhidian Griffiths, Robin Bowen, Daniel Huws, Emrys Jones a D. Roy Saer. Eleni, am benwythnos 14-16 Medi, dychwelir eto i Gregynog, a'r siaradwyr y tro hwn fydd Hywel Teifi Edwards, Bethan Miles, Menna Thomas, Dafydd Idris a John Edward Jones.

Cyhoeddiadau'r Gymdeithas

Allan yn ddiweddar: y gyfrol y bu llawer o ddisgwyl amdani, sef *Canu'r Cymry*, casgliad o 43 cân werin wedi eu dethol a'u golygu gan Phyllis Kinney a Meredydd Evans. Ei phris: £2.75.

Ar y ffordd: *Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru/The Welsh Folk-Song Society, 1908-1983* (wedi ei pharatoi gan D. Roy Saer), sef atgynhyrchiad rhwng cloriau o'r arddangosfa luniau a ddarparwyd ar gyfer y dathliad pen blwydd.

Gwyliau a Chyrsfeydd

Trist fu gweld darford ar Wyl Werin Dolgellau wedi ond pedair blynedd, yn enwedig gan fod hyn i raddau oherwydd diffyg twf y clybiau gwerin ymysg Cymry Cymraeg. Dal i fynd, fodd bynnag, a wna gwyliau eraill a chyrsfeydd. Dyma rai manylion perthnasol: 17-19 Awst, Gŵyl Werin Gydwladol Pontardawe; 14-16 Medi, Cwrs Penwythnos Cymdeithas Ddawns Werin Cymru, Aberystwyth; 20 Hydref, Gŵyl Werin Cymru, Caerfyrddin; 10 Tachwedd, Gŵyl Gerdd Dant Cymru, Corwen. Am fanylion llawnach ynglŷn â gwyliau gwerin gweler y cylchgrawn pedwar-misol *Taplas*.

NEWS IN BRIEF

The Society's 75th Birthday

The occasion received considerable attention from the media in Wales. Special articles appeared in "Y Cymro", "Y Faner", Welsh Music, Taplas, Cwlwm, "The Western Mail" and "The Daily Post" and it was discussed in "Rhaglen Hywel Gwynfryn" (BBC Wales Television), "Gwerin" and "Helo, Bobol!" (Radio Cymru) and "Four, Five, Six" (Radio Wales). A photographic exhibition prepared by the Welsh Folk Museum was shown at St Fagans and Llangollen, and is likely to be further displayed in Bangor and probably at the Lampeter National Eisteddfod.

The Weekend Course

In 1984 it was held at Gregynog Hall, Powys, and lectures were given by Rhidian Griffiths, Robin Bowen, Daniel Huws, Emrys Jones and D. Roy Saer. This year, for the weekend of 14-16 September, it returns once more to Gregynog and our speakers will be Hywel Teifi Edwards, Bethan Miles, Menna Thomas, Dafydd Idris and John Edward Jones.

Society Publications

Recently out: the much-awaited volume Canu'r Cymry (Songs of the Welsh), a collection of 43 folksongs selected and edited by Phyllis Kinney and Meredydd Evans. Price: £2.75.

On the way: Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru/The Welsh Folk-Song Society, 1908-1983 (prepared by D. Roy Saer), a reproduction between covers of the above-mentioned photographic exhibition.

Festivals and Courses

It is sad to see the demise of the Dolgellau Folk Festival after only four years, particularly since this was partly brought about by lack of growth of Welsh-language folksong clubs. Other festivals — and courses — continue to flourish. A few relevant details are: 17-19 August, Pontardawe International Folk Festival; 14-16 September, Weekend Course, Welsh Folk Dance Society, Aberystwyth; 20 October, Gŵyl Werin Cymru (Welsh Folk Festival), Carmarthen; 10 November, Gŵyl Gerdd Dant Cymru (Cerdd Dant Festival of Wales), Corwen. For additional details of folk festivals, see the four-monthly magazine Taplas.

CYMDEITHAS CERDD DANT CYMRU

Dydd Sadwrn, 29 Medi (3 o'r gloch)
CYFARFOD BLYNYDDOL
Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy

Nos Wener, 9 Tachwedd
CYFARFOD DATHLU
HANNER CAN MLWYDDIANT Y GYMDEITHAS
Pafiliwn Corwen

Dydd Sadwrn, 10 Tachwedd
GWYL GERDD DANT CYMRU
BALA A'R CYLCH
Pafiliwn Corwen

Rhestr Testunau: 25c (50c drwy'r post) oddi wrth
Rhian neu Dewi Jones, Bryn Medrad, Llangwm, Corwen, Clwyd.

Gellir ymuno â'r Gymdeithas drwy gysylltu â'r Ysgrifennydd: Mrs Edith Jones, 4 Tai'n
Rhos, Y Parc, Y Bala, Gwynedd LL23 7VW (Ffôn: Llanuwchllyn 249). Y tâl aelodaeth:
£2.50 i Unigolion, £1.00 i Blant, a chynigir gostyngiad o 20% i Bartion neu Gorau.

Dosberthir hefyd gan yr Ysgrifennydd gopïau o'r cylchgrawn *Allwedd y Tannau*, llyfrau
alawon (gan gynnwys rhai ar gyfer dysgwyr canu telyn) a thannau telyn.

CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU

A gardech chwi ymuno â Chymdeithas Alawon Gwerin Cymru? Neu, os ydych eisoes yn aelod, beth am ddarbwyllo rhywun arall i ymuno?

Sefydlwyd y Gymdeithas yn 1908. Ei phwrpas yw casglu, cadw a pherfformio caneuon gwerin Cymru, cyhoeddi enghreifftiau dethol ohonynt, a hybu ymchwil, yn llenyddol a cherddorol, yn y maes hwn. Erbyn hyn ymddangosodd dros ugain rhifyn o'i Chylchgrawn, gan gynnwys dros 500 o ganeuon. Yn flynyddol er 1963, ac ym mis Medi, cynhaliwyd cwrs penwythnos o ddarlithiau (gan arbenigwyr o Gymru a gwledydd estron), trafodaethau a chanu. Tua mis Hydref, hefyd, llwyfennir Gŵyl Werin Cymru, gŵyl undydd a drefnir ar y cyd gan Gymdeithas Ddawns Werin Cymru a'n Gymdeithas ninnau.

Y tanysgrifiad blynyddol yw £2 i Oedolion, £3 i Wŷr a Gwragedd ynghyd, a £1 i blant, sy'n sicrhau copi o *Canu Gwerin*, cylchgrawn blynyddol y Gymdeithas.

Ein Hysgrifennydd Aelodaeth yw:

Mrs Alwena Morgan, Glan Mawddach, Y Ganllwyd, Dolgellau.

Ffôn: Y Ganllwyd (034 140) 635.

THE WELSH FOLK-SONG SOCIETY

Would you like to join the Welsh Folk-Song Society? Or, if you are already a member, why not persuade someone else to join?

The Society was established in 1908. Its aims are the collection, preservation and performance of Welsh folk-song, its publication, and the encouragement of related research-work. By today, over twenty numbers of its Journal have appeared, including over 500 songs (nearly all of them with Welsh-language texts). Annually since 1963, and usually in September, the Society has held a weekend course of lectures (by specialists from Wales itself and other countries), discussions and song. Around October, too, in conjunction with the Welsh Folk Dance Society, it stages the one-day Gŵyl Werin Cymru (Welsh Folk Festival).

Annual subscription is £2 for Adults, £3 for Husbands and Wives jointly, and £1 for Children, which secures a copy of Canu Gwerin/Folk Song, the annual journal of the Society.

Our Membership Secretary is:

Mrs Alwena Morgan, Glan Mawddach, Y Ganllwyd, Dolgellau.

Tel. Y Ganllwyd (034 140) 635.



2330161

Dyblygion

Canu gwerin

Folk song.